

# Adroddiad Blynyddol

2019/20 a 2020/21

1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2021

---

## Cynnwys

Golwg ar 2019-2021

Rhagair gan Gayna Jones

Trosolwg gan Carole-Anne Davies

Amdanom ni

Ein hamcanion

Ein perthynas gyda Llywodraeth Cymru

Dadansoddi'r risgiau a'r cyfleoedd

Ein perfformiad

Ein heffaith

Bodloni anghenion cenedlaethau'r dyfodol

Adnoddau a blaenoriaethau

Amcanion strategol ar gyfer 2021/22

Ein Bwrdd

Atodiadau

## Golwg ar 2019 - 2021

### Uchafbwyntiau

- Rydym yn deall yn well ein cryfderau, a sut i'w defnyddio nhw yn y ffordd fwyaf effeithiol
- Mae blaenoriaethu busnes craidd, ar sail ein dealltwriaeth o'n cyd-destun sydd wedi'i nodi yn ein dogfennau cynllunio blynyddol yn dal i fod yn gryfder allweddol wrth wraidd ein gwydnwch gweithredol
- Cynyddodd ein cynhyrchiant incwm nad oedd yn ymwneud â'r drysorlys yn ystod 2019/29, er bod hyn wedi lleihau yn 2020/21 oherwydd pandemig y coronafeirws Covid-19
- Mae prosiectau a pherthnasoedd ar raddfa fawr, uchelgeisiol, yn gyfleoedd mawr ar gyfer newid systemig positif ac effaith drwy ddylunio a chreu lleoedd
- Mae ffocws sydd wedi'i led-adnewyddu ar ddeilliannau sy'n cynrychioli gwerth cyhoeddus wedi cryfhau ymhellach ein cydweithrediad gyda dylanwadwyr a phenderfynwyr ledled llywodraeth leol a chenedlaethol, ac mae wedi arwain at gynnydd yn ein rhaglen cefnogi cleientiaid
- Cyfathrebu a buddsoddiad gwell o ran y Gymraeg; defnyddio ein hymchwil, dadansoddi ac arbenigedd i wella proffil ac ymwybyddiaeth o gynnwys dwyieithog. Mae hyn yn cryfhau ein gwaith gyda chyrrff llywodraethol megis Trafnidiaeth Cymru, y Trysorlys, Ysgolion a'r Rhaglen Dai Arloesol.

### Llwyddiannau allweddol

Gweithgareddau craidd	2019/2020	2020/2021
Diwrnodau Adolygu Dylunio	21	22
Cynlluniau a adolygwyd	75	63
Ymgynghori ysgrifenedig ychwanegol	7	6
Datblygiad Proffesiynol/Cymorth Cleientiaid/Hyfforddiant	4*	12
Digwyddiadau a seminarau a gynhaliwyd	24	0*
Mynychwyr yr amgylchedd adeiledig	571	250

\*yn dynode ffrydiau gwaith yr effeithir arnynt gan bethau a ganslwyd o fis Mawrth 2020

Cyllideb 2019/20		Cyllideb 2020/21	
Refeniw	£360,000.00	Refeniw	£360,000.00
Cymorth hael	£82,862.00	Cymorth hael	£82,325.00

### Mae dylunio'n bwysig oherwydd mae'n broses ar gyfer:

- Datrys problemau'n greadigol, gonestrwydd ac arloesedd
- Meithrin sgiliau, defnyddio talentau
- Ychwanegu gwerth
- Gwella ansawdd bywyd
- Gwneud pethau'n iawn



**Profiad y cwsmer**  
Profiad defnyddwyr



**Gwerth Cymdeithasol**  
Y tu hwnt i ddefnyddwyr i'r gymuned ehangach



**Creu Lleoedd**  
Hunaniaeth lleoedd a'r cyd-destun ehangach



**Costau Cyfalaf**  
Buddsoddi i roi prosiectau ar waith



**Costau Bywyd Cyfan**  
Cynnal a chadw a gweithrediad



**Amgylcheddol**  
Ôl-troed carbon a chynaliadwyedd



## Rhagair gan y Cadeirydd



### Fel Cadeirydd Comisiwn Dylunio Cymru, mae'n fraint cyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer y ddwy flynedd o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2021.

Rydym yn cofnodi'r adroddiad hwn yng nghyd-destun pandemig byd-eang Covid-19 a mesurau iechyd y cyhoedd eang cysylltiedig. Hoffem ddiolch i Lywodraeth Cymru am ystyried effaith yr oedi ar swyddogaethau adrodd a chyflwyno adroddiadau blynyddol, ac felly mae'r adroddiad hwn yn berthnasol i 2019/20 a 2020/21.

Roedd ymwybyddiaeth y Comisiwn o'r risgiau iechyd a llesiant cynyddol i'w dîm a'i weithrediadau'n golygu ei fod wedi penderfynu cau bob eiddo o 16 Mawrth 2020. Symudodd yr holl wasanaethau allweddol ar-lein, ac mae staff y Comisiwn wedi bod yn gweithio o gartref ers hynny.

Yn y cyd-destun hwn, rydym hyd yn oed yn fwy diolchgar am ein perthynas waith gyda Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn hwyluso gwaith y Comisiwn wrth i ni ymateb i'r fframwaith a roddir i ni. Mae hefyd yn ein cefnogi i sicrhau ein bod yn mynd ar ôl ein hamcanion cwmni ac, fel Cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig, yn cyflawni ein cyfrifoldebau o ran llywodraethu a chyfeiriad strategol.

Mae'r Comisiwn yn parhau i fynd ar ôl ei nod craidd, sef hyrwyddo dylunio da ar draws pob sector i gefnogi datblygiad cynaliadwy a chreu lleoedd da. Rydym wedi cael blwyddyn brysur iawn ar y cyfan, ac yn parhau i chwarae rhan sylweddol mewn sawl menter strategol genedlaethol megis cefnodi agenda polisi cynllunio ar sail lleoedd, sy'n adnabod rôl hanfodol dylunio da o ran creu lleoedd cadarn, ac o ran mynd ar ôl amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae'r gwaith parhaus hwn, prosiectau mawr a'n perthnasoedd strategol wedi'u nodi yn ein Llythyr Fframwaith a Chytundeb Cyllid ar gyfer 2020-21, ac edrychwn ymlaen at fynd i'r afael â'r tymor nesaf o drefniadau llywodraethu. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r holl gyfleoedd hyn i hyrwyddo ymhellach gwerth dylunio da a chreu lleoedd yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch yn enwedig i Julie Hames AS Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol am ei chefnogaeth a'i brwdfrydedd o ran ein gwaith. Rydym wedi datblygu perthynas adeiladol iawn yn gyflym, sy'n werthfawr i ni. Mae gennym berthynas bositif a chadarn gyda'n Tîm Partner yng Nghyfarwyddiaeth Cynllunio Llywodraeth Cymru, ac rydym yn gwerthfawrogi eu cymorth, cyllid, craffu adeiladol a'u cydweithrediad. Yn fwy diweddar, mae hyn wedi cael ei ymestyn i'r tîm Seilwaith Economaidd a thrwy ein gwaith gyda Thrafnidiaeth Cymru.

Rwy'n ddiolchgar i'm cyd-Gomisiynwyr, sy'n rhoi o'u hamser yn hael iawn. Hoffem ddiolch i Trevor Skempton wnaeth adael y swydd yn 2020 ar ôl tri thymor llawn a chyfraniad anhygoel at y Comisiwn. Daeth diwedd tymhorau Ewan Jones a Philip Jardine hefyd ym mis Mawrth 2021. Rydym yn ddiolchgar i'r ddau ohonynt am eu cyfraniad arwyddocaol fel aelodau Bwrdd y Comisiwn.

Rydym yn ffodus o gael tîm staff ardderchog, cyfraniad gweithwyr proffesiynol dylunio'r sector preifat trwy'r Panel Adolygu Dylunio a chyfraniadau sawl partner a chyrrff proffesiynol. Mae'r Comisiwn yn gwneud yn aruthrol o dda oherwydd ymdrech gydweithredol y bobl hyn, sydd oll yn rhannu'r weledigaeth am Gymru well yn sgil dylunio gwych.

**Gayna Jones**  
Cadeirydd, Comisiwn Dylunio Cymru  
31 Mawrth 2021

## Trosolwg gan y Prif Weithredwr



Diolch o galon i'n Cadeirydd, Bwrdd y Cyfarwyddwyr, ein tîm o staff a'r cynghorwyr yr ydw i'n falch iawn o weithio gyda nhw. Maen nhw'n sicrhau ein cwmpas a'n cyrraedd ym mhob rhan o Gymru. Rydym yn dal i werthfawrogi'n perthynas gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru, swyddogion a phartneriaid yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, yr ydym yn gweithio gyda nhw i wneud Cymru'n lle gwell.

Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar ein perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf o 1 Ebrill 2019 i 31 Mawrth 2021. Mae hefyd yn cynnwys tymor newydd o fframwaith llywodraethol, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2020, gan alluogi cyfnod o flwyddyn o bonito i dymor llawn nesaf y Llywodraeth.

Mae'r gweithgareddau a nodir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu llywio gan ddefnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid ledled y sectorau dylunio, cynllunio a datblygu, a chan ein dealltwriaeth o'n hadnoddau a'n hamgylchedd gweithredu. Mae ein gweithgareddau'n mynd i'r afael yn uniongyrchol â gofynion ein llythyr Fframwaith a Chyllid Llywodraeth Cymru, yng nghyd-destun ein Gwrthrychau a'n Pwerau cwmni. Maent wedi'u halinio i'n hymrwymiad o hyrwyddo rhagoriaeth dylunio ar gyfer amgylcheddau gwell ledled Cymru.

Edrychwn ymlaen wrth gofnodi'n perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gan ddefnyddio dadansoddiad strategol sy'n archwilio ein hamgylchedd gwaith, adnoddau a gwybodaeth o'r ffactorau aml-sector sy'n dylanwadu a siapio'r amgylchedd adeiledig. Rydym yn ystyried dylanwadau allanol, sector cyhoeddus a phreifat, polisi a deddfwriaeth a phatrymau gweithlu, sgiliau a disgygliadau newidiol. Mae hyn yn llywio ein dull o ran cyfleoedd megis prosiectau mawr strategol yn genedlaethol a phwysigrwydd creu lleoedd sy'n ymateb yn bositif i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd bellach wedi'i hintegreiddio'n llwyr i Bolisi Cynllunio Cymru 10. Wrth archwilio dylanwadau yn ein cwmpas gwaith, rydym wedi ymrwmo i godi ymwybyddiaeth o rôl dylunio da mewn ymatebolrwydd hinsawdd, effeithlonrwydd adnoddau a datgarboneiddio.

Mae cyfleoedd hirdymor yn yn amlwg yng Nghymru yn enwedig mewn trafndiaeth, cysylltedd ehangach, ynni a seilwaith economaidd arall. Rydym yn dal i helpu i adnabod a sicrhau cyfleoedd i ymgorffori ansawdd dylunio a chreu lleoedd er budd cyhoeddus hirdymor a phositif. Mae'r cynnydd mewn galw am ein rhaglen cymorth cleientiaid yn golygu y gallwn wneud mwy o'n harbenigedd ar gael i helpu cyrff comisiynu, a'r sector cyhoeddus yn benodol, i gael gwybodaeth well, sefyllfa well a bod yn gleientiaid gwell. Mae ein profiad a'n gwybodaeth ymarferol o dueddiadau ledled sectorau a rhwystrau i

ddeilliannau creu lleoedd a dylunio o safon effeithiol yn golygu y gallwn ychwanegu gwerth ar y camau cynharaf, gan helpu i leihau costau a risgiau, ac uchafu'r potensial ar gyfer gwerth cyhoeddus hirdymor. Mae ein harbenigedd yn golygu ein bod ni'n realistig am yr heriau, ac mai sgiliau a newid diwylliant yw'r heriau mwyaf.

Mae pandemig Covid-19 wedi taflu golau ar bwysigrwydd ansawdd ein hamgylchedd go iawn. Fe fyddwn ni'n byw gydag effaith y feirws am byth. Bydd y cyfyngiadau'n dal i gael eu lleddfu, ond bydd pethau'n newid - a rhai'n newid am byth.

Rydym wedi gwybod am ganrifoedd beth mae'n ei olygu i ddylunio lleoedd sy'n blaenoriaethu pobl. Fodd bynnag, mae'r golau llachar hwnnw yn deillio o'r feirws wedi dangos ein bod wedi symud ym mhell oddi wrth hyn mewn degawdau diweddar. Mae'n ein hatgoffa mai dyma yw ein cartrefi, ein hysgolion a'n gofal iechyd; ein lleoedd a'n cymdogaethau. Maen nhw'n fwy nag 'eiddo'. Cawn ein hatgoffa bod dylunio a phensaerniaeth trefol da ar gyfer lleoedd cysylltiedig, unigryw, sy'n annog cydlynad ac sy'n darparu cartrefi sy'n cyfrannu at gymunedau iach yn bwysicach nag erioed. Heb y rhain, ni all pobl ffynnu.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r galw am ein cyngor a'n mewnbwn yn uchel. Mae'r raddfa newid yn deillio o amgylchiadau'r pandemig yn creu arloesedd a heriau. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen rhagor o gyfranogiad ac ymgysylltiad ar gyfer ein canol trefi, ein dull cartrefi, cymdogaethau a mannau gwyrdd. Rydym yn dal i eirioli'n frwd dros gyflawni deilliannau gwell a rhagor o werth cyhoeddus hirdymor o fuddsoddiadau cyhoeddus sylweddol, nawr ac i genedlaethau'r dyfodol.

Edrychwn ymlaen at ragor o gydweithio gyda Llywodraeth Cymru, ein partneriaid, cydweithwyr a rhanddeiliaid, ledled sectorau a phroffesiynau. Byddwn yn parhau i fireinio cefnogaeth hyd yn oed yn well ar gyfer y cyfrifoldeb sydd gan bob un ohonom i helpu i hyrwyddo lleoedd iach a chynaliadwy sydd wedi'u dylunio'n dda ym mhobman, i bawb.

**Carole-Anne Davies**  
Prif Weithredwr  
31 Mawrth 2021

## Amdanom ni

### Mae Comisiwn Dylunio Cymru'n hyrwyddo dylunio da ar gyfer Cymru sy'n lle gwell.

Cwmni preifat yw'r Comisiwn, sy'n gyfyngedig gan warrant (DCFW LTD), heb gyfalaf cyfranddaliadau ac wedi'i ymgorffori yn 2002 fel is-gwmni ym mherchnogaeth llwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bellach Gweinidogion Cymru, yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Rydym yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflawni gweithgareddau'n unol â Gwrthrychau'r Cwmni, fel y'i nodwyd yn ei Femorandwm Cymdeithas.

Mae'r Comisiwn yn hyrwyddo pwysigrwydd dylunio da gan ddefnyddio tri gwasanaeth unigryw, sy'n gysylltiedig â'i gilydd:

#### **Cymorth cleientiaid a hyfforddiant**

Rydym yn canolbwyntio ar eitemau hirdymor a strategol, creu lleoedd a sicrhau ansawdd dylunio drwy'r broses gynllunio, gan helpu cleientiaid i wella eu dyheadau a chefnogi eu huchelgeisiau; adnabod eu gofynion a'u cyfathrebu nhw'n glir, datblygu'r briff a sicrhau timau dylunio o safon wedi'u hintegreiddio.

#### **Gwasanaeth Adolygu Dylunio Cenedlaethol**

Rydym yn annog ymgysylltiad cynnar ar gynigion ledled Cymru, gan ychwanegu gwerth drwy gynnig cyngor dylunio strategol, adnoddau arbenigol, cymorth a her adeiladol.

#### **Digwyddiadau, cyhoeddiadau a rhwydweithiau**

Rydym yn helpu i archwilio materion perthnasol, codi ymwybyddiaeth, efelychu cydweithrediad a thrafodaeth ehangach a chyfathrebu manteision dylunio da.

## Ein Hamcanion

Ein hamcanion cwmni fel Comisiwn Dylunio Cymru yw:

- Hyrwyddo safonau dylunio a phensaernïaeth uchel i sectorau cyhoeddus a phreifat Cymru drwy hyrwyddo eu dealltwriaeth ehangach o faterion dylunio, a phwysigrwydd gwella'r amgylchedd adeiledig ym mhob sector, gan gynnwys trefnu arddangosfeydd, cyfarfodydd, seminarau a chynadledau.
- Hyrwyddo arfer dylunio sy'n gweddu i'r cynllun a gafodd ei greu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru dan Adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 ("y Cynllun Datblygu Cynaliadwy"), gan hyrwyddo arfer gorau o ran effeithlonrwydd ynni, gwaredu gwastraff a mynediad i drafnidiaeth gyhoeddus.
- Hyrwyddo arfer dylunio o'r radd flaenaf mewn perthynas â hyrwyddo cyfle cyfartal a chynhwysiant cymdeithasol.
- Wrth hyrwyddo rhagoriaeth mewn prosiectau marw, ystyried hefyd hyrwyddo rhagoriaeth mewn datblygiadau bob dydd megis ystadau preswyl ac unedau diwydiannol.

#### **Ein dull**

Rydym yn cynnwys cydweithwyr ym maes pensaernïaeth, dylunio trefol a thirwedd, peirianeg sifil a strwythurol, gweithwyr proffesiynol cynllunio a pholisi sydd ynghlwm wrth siapio cefn gwlad, dinasoedd, trefi a phentrefi Cymru.

Rydym yn cydweithio gyda rhanddeiliaid ledled cyrff aelodaeth proffesiynol, awdurdodau lleol, cleientiaid a chyrrff comisiynu, ar gynllunio, adfywio, ynni a seilwaith. Mae ein harbenigedd ar gael ym mhob rhan o Gymru.

Rydym yn hyrwyddo dylunio da ac yn cyfathrebu ei fanteision, gan ychwanegu gwerth a chyfrannu at yr amodau sydd eu hangen i gael amgylchedd o safon well. Y dull hwn sy'n cefnogi lles ac ansawdd bywyd pobl Cymru.

#### **Beth mae dylunio da yn ei olygu i ni**

Mae dylunio da'n hanfodol er mwyn creu lleoedd da, datblygu cynaliadwy, cynhwysiant cymdeithasol a gwerth cyhoeddus hirdymor. Mae'n manteisio i'r eithaf ar ddefnydd tir effeithlon ac adnoddau eraill, yn cyfrannu at weithlu sgilgar ac yn cyflawni ansawdd amgylcheddol gwell er mwyn sicrhau ansawdd bywyd gwell. Mae amgylchedd adeiledig sydd wedi'i ddylunio'n dda yn rhoi dewisiadau teithio a thrafnidiaeth i bobl, yn cynnig mynediad rhwydd at gyfleoedd gofal iechyd, addysg a gwaith, mae'n gynhwysol ac yn hawdd i bawb ei ddefnyddio, mae'n llawn lleoedd sy'n rhoi boddhad ac yn lleoedd braf i fyw ynddynt.

Mae dylunio da yn:

- Symleiddio cymhlethdodau
- Gwneud lleoedd, cynnyrch ac adeiladau'n fwy deniadol
- Canolbwyntio ar fod yn hawdd o ran defnydd, hygyrchedd a chynhwysiant
- Defnyddio adnoddau ac ynni'n effeithlon
- Lleihau risgiau, gwastraff a chostau oherwydd camgymeriad neu newid nas cynlluniwyd
- Ychwanegu gwerth ac yn gwella budd y cyhoedd

#### **Ein gwerthoedd**

Ein gwerthoedd yw gonestrwydd, tryloywder a pharch ddwyochrog mewn diwylliant lle caiff gwybodaeth ei rhannu gyda phob rhanddeiliad. Mae ein gwerthoedd yn brawf o'r math o sefydliad yr hoffem fod. Rydym yn meithrin diwylliant positif, proffesiynol a chreadygol, ac yn gweithio i wella'n barhaus effeithlonrwydd ac ansawdd ein gwasanaethau.

Mae'r Comisiwn Dylunio'n sefydliad arbenigol, lle mae pob tîm yn cael ei werthfawrogi ac yn gallu ffynnu drwy greadigrwydd, cymhwysedd a hyder. Mae datblygiad proffesiynol a phersonol a gwella gallu i arwain yn cyfoethogi ein tîm, yn gwella ein perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn.

## Ein perthynas gyda Llywodraeth Cymru

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru, yn adrodd iddynt yn chwarterol ac yn ein Cyfarfodydd Bwrdd chwarterol a'n hadroddiadau diwedd blwyddyn ariannol.

### Targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20 a 2020-21:

- **22** Diwrnod Adolygu Dylunio gan gynnwys pedwar diwrnod yng ngogledd Cymru (lle bo angen)
- **Wyth** Sesiwn Datblygu Proffesiynol wedi'u cynllunio a'u cyflawni
- **350** o weithwyr Proffesiynol Amgylchedd Adeiledig/Aelodau Awdurdodau Lleol yn mynychu DPP/hyfforddiant/seminarau/digwyddiadau

### Perfformiad yn erbyn targedau 2019/20:

- Wedi cyflawni **21** Diwrnod Adolygu Dylunio
- Cyfanswm y cynlluniau a gafodd adolygiad craidd yn **75**, gan gynnwys **36** o Adolygiadau Penodol i Raglen Tai Arloesol gyda **7** ymateb bwrdd gwaith ychwanegol.
- Nifer y Sesiynau Datblygu Proffesiynol/Cymorth Cleientiaid/Hyfforddiant a gyflawnwyd, **4\***
- Digwyddiadau a seminarau **28**
- Mynychwyr amgylchedd adeiledig **571**

\*dynodi ffrydiau gwaith a effeithir arnynt gan orfod canslo ym mis Mawrth 2020.

Gan weithio gyda thîm staff llai o ddau aelod staff amser llawn ac un aelod staff rhan amser yn 2019-20, nid oedd y Comisiwn yn gallu hwylsuo'r adnoddau dynol a'r costau uniongyrchol ar gyfer presenoldeb corfforol helaeth yng ngogledd Cymru dros y cyfnod. Dyma'r tro cyntaf yn ein hanes i ni fethu â bodloni'r amcan hwn.

Fodd bynnag, rydym wedi darparu ymgynghoriad a sylwadau ysgrifenedig neu drydanol ar gyfer cynigion sylweddol yn Sir Fflint a Chonwy yng ngogledd Cymru a Sir Benfro yng ngorllewin Cymru. Arweiniodd symud yr holl wasanaethau ar-lein o fis Mawrth 2020 ymlaen at gynydd sylweddol yn nifer yr awdurdodau a'r cleientiaid o bob rhan o Gymru'n defnyddio ein gwasanaethau.

### Perfformiad yn erbyn targedau 2020/21:

- Wedi cyflawni **22** Diwrnod Adolygu Dylunio
- Cyfanswm y cynlluniau a gafodd adolygiad craidd yn **63** gan gynnwys **25** o Adolygiadau Penodol i Raglen Tai Arloesol gyda **6** ymateb bwrdd gwaith/ysgrifenedig ychwanegol
- Nifer y sesiynau Datblygu Proffesiynol/Cymorth Cleientiaid/Hyfforddiant a gyflawnwyd yn **12** gyda chyfanswm o **250** o fynychwyr
- Digwyddiadau a seminarau **0\***



Dyweddodd Julie James AS, Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol:

“Mae gan Gomisiwn Dylunio Cymru rôl allweddol i’w chwarae o ran hyrwyddo dylunio da ar gyfer ein hamgylchedd adeiledig. Nawr yn fwy nac erioed, mae angen inni sicrhau bod creu lleoedd strategol yn cyflawni’r deilliannau gorau ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol. Gall y Comisiwn helpu i sicrhau bod cynlluniau datblygu lleol yn cyflawni hyn er budd pawb.”

Diwrnodau Adolygu Dylunio a gyflawnwyd (targed: 22)

2019/20:  
**21**  
2020/21:  
**22**

Mynychwyr (targed: 350)

2019/20:  
**571**  
2020/21:  
**250**

Sesiynau a gyflawnwyd (targed: 8)

2019/20:  
**4**  
2020/21:  
**12**



## Dadansoddiad

Rydym yn profi'n hamgylchedd gwaith yn rheolaidd drwy gynnal dadansoddiad strategol. Mae canfyddiadau hyn yn diffinio ac yn llywio ein cwmpas strategol, ein cynllunio a'n gweithgareddau gweithredol.

Roedd ein dadansoddiad yn cynnwys ein cryfderau sefydliadol, heriau, cyfleoedd a thueddiadau, gan adnabod dylanwadau allanol a mewnol ar ein cwmpas strategol a'n capasiti gweithredol.

Canfuwyd bod ein hamgylcheddau mewnol ac allanol yn llai rhagfynegadwy o lawer nag unrhyw amser arall ers newidiadau ariannol a strwythurol byd-eang 2008-2011, neu yn ystod ein heriau mewnol mwyaf dwys i'n tîm staff a'r adleoliad sefydliadol yn ystod 2013, a'r cyfnod o lai o adnoddau dynol yn 2018/19. Mae dylanwadau o natur gwleidyddol, economaidd ac amgylcheddol yn dal i fod yn gymhleth, ochr yn ochr â synnwyr o frys, yn enwedig ynghylch yr hinsawdd sy'n newid a'r defnydd o adnoddau naturiol sy'n rhedeg allan. Ni fyddai unrhyw un wedi gallu dychmygu effaith pandemig y coronafeirws Covid-19. Yn y cyd-destun hwn, rydym ar y cyfan yn falch o'n perfformiad wrth edrych yn ôl, ac yn falch o'n gallu i barhau â gweithgareddau a gwasanaethau o safon yn rheolaidd i'r dyfodol. Er hyn, rydym yn cydnabod risgiau parhaus.

Llun 1: Paratoi ar gyfer Adolygiad Dylunio y Rhaglen Tai Arloesol yn swyddfa DCFW 2019/20  
Llun 2 a 3: Datblygiad Partneriaeth Creu Lleoedd Cymru a gweithdai rhanddeiliaid yn DCFW 2019/20



## Ein risgiau

- Mae pandemig Covid-19 yn dal i fod yn her i gymunedau a sefydliadau ledled y byd. Mae cyfyngiadau teithio a mesurau pellter cymdeithasol yn effeithio ein gallu i weithio wyneb yn wyneb. Mae adnoddau mewnol dan bwysau fel ein rhwydwaith o wirfoddolwyr sector preifat sydd â'u heriau busnes eu hunain. Golyga hyn nad oes ganddynt o bosibl yr un capasiti i gefnogi'r Comisiwn Dylunio ar yr un lefelau ag yr ydym wedi'u mwynhau yn y gorffennol.
- Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd/Ardal Economaidd Ewrop (EU/EEA) - yr effaith ar hyder busnes, buddsoddi, datblygiad a'r economi ehangach, a'r ansicrwydd parhaus sy'n dal i fod ochr yn ochr â'r newid cyfansoddiadol hwn.
- Effaith ddilynol yr uchod ar weithlu/gweithwyr Cymru/DU/ledled Ewrop mewn sectorau amgylchedd adeiledig, caffael a chydabod cymwysterau proffesiynol mewn diwydiannau dylunio a natur trefniadau newydd ar gyfer busnesau a'r gweithlu. Mae hyn oll yn dal yn ansicr.
- Mae cytundeb fframwaith 'tymor Llywodraeth' newydd ar gyfer y Comisiwn wedi cael ei sicrhau, ond mae'n nodi newid sydd heb eu deall yn iawn eto, na'u trafod gyda'n partneriaid yn Llywodraeth Cymru. Mae llawer o'r newidiadau hyn yn gyfleoedd, ond maent wedi dod ar adeg o newid a tharfu digynsail, etholiad Llywodraeth Cymru yn 2021 a phroses penodi cyhoeddus newydd ar gyfer bwrdd cyfarwyddwyr y Comisiwn.
- Hyd yn hyn, mae effaith integreiddio lles a deddfwriaeth eraill gyda Pholisi Cynllunio Cymru wedi bod yn bositif, er bod hyn wedi cynyddu'r llwyth gwaith a'r raddfa o ddisgwyliadau a roddir ar y Comisiwn. Bu i adroddiad cyntaf Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru amlygu ein heffeithiolrwydd a chyflwyno argymhellion positif, ond nid ydym wedi gweld eto sut fydd y rhain yn cael eu rhoi ar waith.
- Mae cydbwysedd bregus yn parhau o ran adnoddau dynol, gyda thîm llai a phrysur a llawer o alw. Ar yr un pryd, rydym yn wynebu heriau o ran cadw staff a datblygu sgiliau a gwella gweithlu amrwiol a chynhwysol yn barhaus, a strwythur dilyniant hefyd.
- Mae gan weithio ar-lein ac o bell fanteision lu o ran cyrhaeddiad a rhagor o fynediad i weithgareddau a gwasanaethau, fodd bynnag rydym yn parhau i fonitro'r effaith ar iechyd a lles ein tîm.

## Ein cyfleoedd

- Mae newidiadau yn Llywodraeth Cymru, Gweinidog newydd y mae'r Comisiwn yn gweithio gyda hi, y seithfed ers ei sefydliad, yn parhau i gael effaith bositif, yn cryfhau'r berthynas ledled y wrdd a chyda'r Prif Weinidog, yn ogystal ag adran yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Comisiwn Seneddol.
- Effaith integreiddio llesiant a deddfwriaeth arall gyda Pholisi Cynllunio Cymru.
- Mae ein hymyriad a'n dylanwad strategol ar Bolisi Cynllunio Cymru 10 a'i bwyslais ar greu lleoedd yn parhau i fod yn bositif.
- Mae'r broses o gysoni cyfleoedd seilwaith hirdymor a strategol ar raddfa fawr a pherthnasoedd newydd a chymorth cleientiaid yn gynyddol bositif ac yn cael eu gwerthfawrogi.
- Mae cydnabyddiaeth newydd gan Lywodraeth Cymru o werth cyhoeddus ansawdd dylunio a chreu lleoedd da a gwaith Swyddfa Archwilio Cymru'n pwysleisio'n well pa mor werthfawr yw dylunio da.
- Mae'r argyfwng hinsawdd a'r agenda datgarboneiddio yn gofyn am ragoriaeth o ran dylunio.
- Penodiad pedwar o Gomisiynwyr newydd sydd ar y gweill; gan olygu syniadau ffres ac egni newydd i'r tîm presennol.
- Capasiti gwell o ran dychwelyd i dîm staff llawn, gyda chefnogaeth ymgynghoriaeth cyfyngedig a pheondol.
- Datrys pryderon ynghylch costau cyllidebol a gorbenion.
- Rhagor o ymwybyddiaeth a gweithio ar amrywiaeth well yn ein gwaith ein hunain a'r sectorau yr ydym yn gweithio ynddynt, gan gynnig synnwyr cryfach o ymdrechion ar y cyd tuag at ddileu rhwystrau o ran cyfle cyfartal. Cafodd ein rôl ei hamlygu yn lansiad Llywodraeth Cymru o'i Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Proffil cryfach a gyflawnwyd drwy ragor o gyfathrebu rhagweithiol, digwyddiadau gyda llawer o fynychwyr a phrosiectau.
- Perthynas waith agosach, cryfach, cydweithredol ac adeiladol gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## Edrych tua'r dyfodol

Er i ni barhau i nodi ansicrwydd sylweddol o ran ein cyd-destun gweithredu, rydym yn gallu cynnal gwasanaethau o safon ac adnabod cyfleoedd ar gyfer y dyfodol. O ganlyniad i'n dadansoddiad, rydym yn gwybod yn well sut i archwilio ein perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gwneud penderfyniadau call ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Rydym yn ffodus o fod wedi gallu trafod yn fanwl gyda'n partneriaid yn ein cyfarwyddiaeth nawdd ac wedi gallu, yn ogystal â mynd i'r afael yn effeithiol â'n hamcanion cwmni:

- Datrys yn bositif cyfyngiadau a phwysau cyllidebol hanesyddol, gan sicrhau dim gostyngiad yn y gyllideb yn ystod cyfnod cynllun hwn.
- Mynd i'r afael â chyfyngiadau adnoddau dynol a dychwelyd i dîm llawn.
- Sicrhau adnodd o bedwaredd flwyddyn o fewnbwn gan arbenigwyr i'r buddsoddiad mawr o £90m sydd ochr yn ochr â'r Rhaglen Tai Arloesol.
- Parhau â thrafodaethau ystyrlon a chymorth cleientiaid a ddechreuom y llynedd, gyda'r Llywodraeth a phartneriaid aml-sector allanol ynghylch cyfleoedd ar gyfer seilwaith economaidd ar raddfa fawr.
- Sicrhau perthynas gleientiaid gyda chyrrff cenedlaethol gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru, MIM Ysgolion yr 21ain Ganrif, Amgueddfa Cenedlaethol Cymru.
- Cydweithio gyda'n Partneriaid yn y Gyfarwyddiaeth i arwain ar ddatblygiad a llywio partneriaeth creu lleoedd cenedlaethol, prosiectau'n ymwneud â pholisi cynllunio a Siarter Lleoedd cenedlaethol newydd a gafodd ei lansio gan y Gweinidog yn 2020.
- Buddsoddi i'n cyfathrebu gyda gwefan newydd, proffil gwell ac ymrwymiad i gynnwys ddwyieithog.

Lluniau: Gweithdai hyfforddiant a datblygu Uwchgynllunio yn Sir y Ffint 2019/20



## Ein perfformiad

Mae'r Comisiwn yn adrodd yn rhan o gytundeb fframwaith gyda Llywodraeth Cymru. Wrth ystyried y gweithgareddau a'r perfformiad, dylid nodi:

- Caiff ein gwasanaethau eu hyrwyddo a'u cyflawni ledled Cymru, gyda safbwynt arbenigol annibynnol.
- Nid ydym yn sefydliad aelodaeth na'r gorff proffesiynol. Rydym yn cydnabod natur aml-ddisgyblaethol yr amgylchedd adeiledig ac ystod dylunio, cynllunio a gweithgareddau creu lleoedd.
- Nid ydym yn cynrychioli buddiannau unrhyw broffesiwn unigol.
- Rydym yn canolbwyntio ar werth cyhoeddus hirdymor all gael ei gyflawni drwy'r datrys problemau creadigol sydd wrth wraidd arferion dylunio a datblygu ardderchog, gan ategu creu lleoedd cadarn.

Mae gan y Comisiwn:


- Gylch gwaith amlddisgyblaethol ar gyfer yr holl amgylchedd adeiledig yng Nghymru.
- Tîm arbenigol, amlddisgyblaethol ac aml-sector sy'n cyflawni gwasanaethau arbenigol.
- Gwybodaeth, profiad a pherthnasoedd eang iawn.
- Y gallu i ddenu a chadw'r ymrwymiad o weithwyr proffesiynol sgilgar.
- Capasiti i efelychu a helpu i gynnal rhwydweithiau cydweithredol ledled Cymru.

Rydym yn rhoi cyngor ar ddatblygiadau bychan bob dydd, cynigion preswyl a chymdogaeth, uwchgynlluniau a briffiau datblygu; datblygiadau mawr ar raddfa fawr a phrosiectau seilwaith cenedlaethol hirdymor, prosiectau ffyrdd, morol, gwynt a phrosiectau ynni adnewyddadwy arall.


Rydym yn cyflwyno sylwadau annibynnol yn ysgrifenedig ar y cofnod cyhoeddus ac yn hyrwyddo dylunio da drwy hyfforddiant a seminarau, codi ymwybyddiaeth a chymorth cleientiaid yn ogystal ag ymgysylltu drwy ein Gwasanaeth Adolygu Dylunio cenedlaethol.

Rydym yn defnyddio ein holl blatfformau i gyhoeddi a rhannu ein dysgu, ein harbenigedd a'n profiad o arferion datblygu byw gan gyfrannu at ddadleuon gyda'r nod o ddylanwadu newid positif. Mae ein profiad yn golygu ein bod mewn sefyllfa dd ai helpu i lywio cyfleoedd ar gyfer datblygiad sydd wedi'i ddylunio'n dda, wedi'i leoli'n dda ac sy'n amserol, ac i hyrwyddo gwerth dylunio da ar gyfer creu lleoedd cynaliadwy.


**Ffigur 1**  
Nifer y cynlluniau  
a adolygwyd



**Ffigur 2**  
Cymharu cynlluniau



**Ffigur 3**  
Statws ar adeg ymgynghori gyda DCFW



## Tueddiadau newydd

Mae'r data isod yn dangos cynnydd mewn ymgysylltiad cynnar sy'n cael ei gynnal drwy adolygiad strategol - tueddiad dymunol yr ydym wedi'i flaenoriaethu a'i hyrwyddo ers sawl blwyddyn. Mae ymgynghoriad cyfrinachol cynnar gyda'r Comisiwn yn unol â'n hyrwyddiad o'r gwasanaeth yn cynnig cyfleoedd cynnar critigol i weithio'n strategol ac ychwanegu gwerth.

Rydym yn dal yn bryderus iawn am ansawdd tai newydd, eu lleoliad a'u hystyriaeth lawn ac integreiddiad gyda chreu lleoedd. Rydym yn dal i hyrwyddo'r angen am ansawdd tai da a dull ar sail lleoedd, gyda chefnogaeth gofynion polisi cynllunio lleol. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn gwybod o brofiad yn ymarferol mai'r rhwystr mwyaf dylanwadol i ddylunio da, creu lleoedd a chysylltiedd yw effaith dylunio priffyrdd hen ffasiwn, a chyngor a'i rôl o ran datblygu awdurdodau lleol a phenderfyniadau cynllunio. Rydym yn parhau i herio hyn a chefnogi ac eirioli dylunio ac arloesedd o safon sy'n ychwanegu gwerth ar bob cyfle.

## Sectorau allweddol

Gofal iechyd ac addysg yw'r sectorau o'r ystâd gyhoeddus sy'n defnyddio ein gwasanaethau leiaf. Er ein bod wedi creu perthynas newydd ac ystyrion ar lefel genedlaethol gyda'r rhaglen fuddsoddi refeniw MIM (Model Buddsoddi ar y Cyd) Ysgolion yr 21ain Ganrif, a chyda rhai awdurdodau iechyd - mae'r ddau faes buddsoddiad cyhoeddus mwyaf hyn yn dal i fod yn bryder allweddol. Rydym yn parhau i geisio mynd i'r afael â hyn a dod o hyd i ffyrdd i sicrhau rhagor o fewnbwn mewn maes buddsoddi cyhoeddus mor fawr. Mae prosesau caffael, cyfyngiadau gofynion buddsoddi a chymhlethdodau dulliau prosiectau addysg yn cyflwyno heriau allweddol. Nid yw rhai prosiectau twristiaeth yn elwa o ddull ar sail lleoedd eto o fewnbwn cynnar a chymorth y Comisiwn. Mae eu budd economaidd canfyddiedig yn tansilio materion ansawdd dylunio a chreu lleoedd, datgarboneiddio ac ymatebolrwydd hinsawdd.

Mewn blynyddoedd diweddar, rydym wedi gweld ystod eang o arfer amrywiol a phroffesiynoldeb mewn penderfyniadau'r sector cyhoeddus ac awdurdodau lleol, ac wedi adnabod tueddiadau cyson a rennir o ran rhwystrau i ddylunio da a chreu lleoedd.

Byddai rhagor o fuddsoddiad i hyfforddiant swyddogion ac aelodau'n cynorthwyo ansawdd penderfyniadau mewn awdurdodau lleol, yn enwedig gyda golwg i gryfhau dealltwriaeth ac ymrwymiad ymarferol i greu lleoedd. Mae angen sgiliau strategol ac arferion llawer gwell os yw Cymru'n mynd i ymateb i gyfleoedd cynllunio datblygiadau ar sail lleoedd ar lefel genedlaethol a lleol a Chynllun Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol <https://gov.wales/future-wales-national-plan-2040> a gyfrannodd y Comisiwn yn fawr ato.

Rydym yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd y broses ddylunio o ran cyflawni manteision cyhoeddus ehangach strategaethau seilwaith a thwristiaeth, partneriaethau strategol awdurdodau lleol a ledled prifddinas a dinas-ranbarthau. Mae cyfle systemig pellach o ran defnydd ymarferol gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Mae'n canolbwyntio'n uniongyrchol ar greu lleoedd da ac yn alinio'n strategol gyda gwaith y Comisiwn Dylunio.

Rhywbeth sydd efallai'n rhagfynegadwy yw'r ffaith bod defnydd o'n gwasanaethau a rei uchaf mewn ardaloedd gyda'r crynodiad datblygu uchaf yng Nghymru, a chaiff hyn ei adlewyrchu gan awdurdodau lleol a lleoliad, fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru, y seilwaith ynni a thrafnidiaeth genedlaethol ar draws Cymru i gyd. Mae cyfuniad o swm y gwaith datblygu'n amrywio bob blwyddyn, sgiliau sydd ar gael a'r adnoddau sydd eu hangen gan y Comisiwn hefyd yn ffactorau. Fodd bynnag, drwy ddulliau technolegol neu eraill rydym wedi gallu ymestyn ein cyrraedd a rhoi mewnbyn a chymorth mewn ffordd cost-effeithiol ac effeithlon o ran adnoddau. Rydym hefyd yn gallu croesawu mwy o'r ardaloedd awdurdodau lleol llai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn enwedig lle mae adnoddau cynllunio ac adfywio'n gyfyngedig.

## Rhaniad daearyddol – yn ôl Awdurdod Lleol

Data DR fesul Awdurdod Lleol	2019/20	2020/21
CBC Blaenau Gwent	0	0
NPA Bannau Brycheiniog	0	0
Cyngor Pen-y-bont	0	2
CBC Caerffili	0	4
Cyngor Caerdydd	11	13
Cyngor Sir Gâr	4	0
Cyngor Ceredigion	1	2
Cyngor Conwy	2	1
Cyngor Sir Ddinbych	2	3
Cyngor Sir y Fflint	3	1
Cyngor Gwynedd	3	1
Cyngor Ynys Môn	3	2
Cyngor Sir Fynwy	2	1
CBC Merthyr Tudful	1	0
CBC Castell-nedd Port Talbot	4	1
Cyngor Casnewydd	3	4
Cyngor Sir Benfro	2	3
NPA Arfordir Sir Benfro	2	2
Cyngor Powys	2	2
CBC Rhondda Cynon Taf	5	3
NPA Eryri	1	1
Dinas a Sir Abertawe	10	9
CBC Torfaen	2	3
Cyngor Bro Morgannwg	5	1
Cyngor Wrecsam	1	0
Llywodraeth Cymru	6	4
Cyfanswm	75	63



## Ymgysylltiad

Bu i'n hymgysylltiad gyda gweithwyr proffesiynol amgylchedd adeiledig aml-ddisgyblaethol drwy bresenoldeb yn ein gweithdai, seminarau a digwyddiadau berfformio'n well na'n targedau'n gyson nes i bandemig Covid-19 gyfyngu ar ddigwyddiadau, gweithdai a seminarau wyneb yn wyneb.

Fodd bynnag, rydym yn parhau i gofnodi ffigurau mynychwyr ac adrodd ad y rhain mewn cyfarfodydd chwarterol, lle rydym wedi creu, arwain neu dalu'n llawn am ddigwyddiad, gweithdy neu seminar. Os rydym yn arwain gweithdy mewn digwyddiad partner, rydym ond yn cofnodi'r mynychwyr yn ein sesiwn benodol, Pan fyddwn ni'n bartneriaid, nid ydym yn cofnodi'r mynychwyr fel rhai ni.

### 2019/20

Targed Llywodraeth Cymru o ran ymgysylltu ar gyfer y cyfnod oedd **350** o weithwyr proffesiynol aml-ddisgyblaethol yn mynychu.

- Bu i'r Comisiwn Dylunio greu, arwain neu dalu'n llawn am **28** o ddigwyddiadau yn 2019/20, ledled ystod o bynciau a chynulleidfaoedd gyda phartneriaid amrywiol.
- Cyfanswm nifer y mynychwyr aeth i ddigwyddiadau yn 2019/20 oedd **571**.



### 2020/21

Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer ymgysylltu yn y cyfnod oedd **350** o weithwyr proffesiynol aml-ddisgyblaethol yn mynychu.

- Nid oedd y Comisiwn Dylunio'n gallu cyflawni mwy o ddigwyddiadau wyneb yn wyneb cyhoeddus neu aml-sector yn 2020/21 ac felly doedd dim modd cofnodi nifer y mynychwyr.
- Fodd bynnag, gwnaethom greu, arwain a chyflawni **12** o seminarau datblygiad proffesiynol a hyfforddiant ar-lein, lle roedd **250** yn bresennol ledled disgyblaethau a sectorau.

## Ymgysylltu ehangach a datblygiad proffesiynol

Ers 2017, mae'r Comisiwn Dylunio wedi agor ei Wasanaeth Adolygu Dylunio i arsylwyr ar ddibenion Datblygiad Proffesiynol a Dysgu. Mae ystod o bobl wedi mynychu a chofnodi oriau DPP a manteision. Mae'n wasanaeth unigryw ac mae aelodau o'r Arolygiaeth Cynllunio, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Swyddogion Awdurdodau Lleol, cleientiaid, myfyrwyr ac aelodau'r cyhoedd wedi manteisio ar y cyfle. Yn 2019-20, cafodd cyfleoedd diwrnod llawn arsylwi DPP eu cyflawni gan 13 o weithwyr proffesiynol ledled sawl adolygiad. Nid yw hyn yn cynnwys arsylwyr anffurfiol megis myfyrwyr Lefel A ar brofiad gwaith ac ymchwilwyr doethurol. Oherwydd effaith Covid-19, roedd ein cyrraedd yn hyn o beth yn gyfyngedig iawn, a nid oeddem yn gallu caniatáu arsylwyr ar gyfer DPP. Rydym yn gobeithio ail-ddechrau hyn yn y flwyddyn nesaf.

Bu i amgylchiadau eraill y tu hwnt i'n rheolaeth megis yr Eisteddfod Genedlaethol yn cael ei chanslo effeithio ar ein cefnogaeth ar gyfer Medal Aur Pensaerniaeth yr Eisteddfod - grant ariannol bychan gan gynnwys Ysgoloriaeth Pensaerniaeth DCFW i ddylunwyr ifanc talentog o Gymru, a'r arddangosfa ynghlwm wrth y ddwy wobwr. Cafodd yr ŵyl ei chanslo'n 2020 ac ni fydd yn cael ei chynnal yn 2021, fodd bynnag, rydym yn gobeithio parhau â'n cefnogaeth yn 2022.

## Cydweithio a chefnogi cleientiaid

Parhaodd gwaith a gomisiynwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful gyda chymorth cleientiaid gan y Comisiwn Dylunio ar y prosiect Crucible a'r cynllun Cyfarthfa. Bu i'n siaret dylunio ym mis Hydref 2017 ddechrau'r prosiect a chreu incwm prosiect ychwanegol ar gyfer ein cymorth cleientiaid hirdymor yn arwain at lansiad cyhoeddus Cynllun Cyfarthfa ar 12 Ionawr 2021. Daw hyn ochr yn ochr â chefnogaeth ar gyfer ystyriaethau ar safleoedd strategol megis Rhondda Cynon Taf, adfywio Pen-y-bont ar Ogwr ac uwchgynllunio strategol Sir y Fflin yn ogystal â phrosiectau sy'n sylweddol yn genedlaethol yn deillio o'r Metro a'n gwaith gyda Thrafnidiaeth Cymru

Gwnaethom hefyd gefnogi Prifysgol Caerdydd yn 2019/20 cyn dod ynghlwm wrth Ymddiriedolaeth Ysbyty Felindre yn 2020. Roedd Ysgol Pensaerniaeth Cymru hefyd yn rhan o'n porffolio yn 2020/21; sy'n adlewyrchu ystod ein cyrraedd a'n gallu i helpu i lywio prosiectau trawsnewidiol ledled Cymru.

Mae'r Comisiwn hefyd yn parhau i gynnig cymorth i Bartneriaeth Creu Lleodd Cymru sy'n hyrwyddo Siarter Creu Lleodd Cymru a chreu lleoedd yn ymarferol. Rydym yn cydweithio gyda chyrrff aelodaeth proffesiynol gan gynnwys RTPi Cymru ac RSAW drwy eu cynadleddau gwanwyn a Hydref, Gŵyl Pensaerniaeth Cymru RSAW

20/21



digwyddiadau

12



mynychwyr

250

ac ystod o ddigwyddiadau a seminarau. Mae'r Comisiwn yn gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Tirwedd yn genedlaethol ac yng Nghymru, gan farnu a chydweithio er mwyn cael diwydiant mwy amrywiol. Er nad oes modd rhoi dyfarniadau ariannol i'r cyrff hyn, rydym yn dal if of wedi ymrwmo i gefnogi a pharhau i gydweithio.

Mae perthynas waith agos wedi cael ei phennu gyda swyddf Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## Ein heffaith

Edrychwch ar ychydig o'n gwaith dros y ddwy flynedd ddiwethaf:

### Adeiladu Lleoedd Gwell

Ym mis Gorffennaf 2020, gwnaethom groesawu cyhoeddiad Llywodraeth Cymru o Adeiladu Lleoedd Gwell. Gydag ymrwymiad i greu lleoedd da, mae'r ddogfen yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru er mwyn cynorthwyo ag adfer ar ôl pandemig Covid-19. Yn bwysig, mae'n manylu sut gall y system gynllunio gyflawni dyfodol mwy gwydn a disglair i Gymru.



### Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

Cyhoeddodd Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ei adroddiad dros dro ym mis Gorffennaf 2020 ar sut i leihau tagfeydd, gwella cysylltedd ac arddangos yr angen i ystyried trafndiaeth a defnydd tir yn gynhwysfawr.


Ar ôl dylunio a hywlyso siaret Datblygu ar sail Trafnidiaeth (ToD) ym mis Hydref 2019, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Prif-ddinas Ranbarth Caerdydd, awdurdodau lleol a Thrafnidiaeth Cymru i helpu i sicrhau bod buddsoddiad i'r dyfodol ar greu lleoedd wedi'i gydlynu'n dda a'i alinio gyda hyrwyddo teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus fel elfennau critigol ar gyfer llwyddiant.



### Siarter Creu Lleoedd

Gyda chymorth ein partneriaid roeddem yn falch iawn o lansio'r Siarter Creu Lleoedd ym mis Medi 2020. Cafodd ei datblygu gan Gomisiwn Dylunio Cymru gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar y cyd â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru - grŵp aml-ddisgyblaethol sy'n cynrychioli proffesiynau a sefydliadau sy'n gweithio o fewn yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

Mae'r Siarter yn adeiladu ar ffocws Greu Lleoedd mewn polisi ac ymarfer yng Nghymru, a'r nod yw greu dealltwriaeth gyffredin o ystod o ystyriaethau creu lleoedd. Mae'r siarter yn amlinellu chwech o egwyddorion creu lleoedd sy'n cynnwys ystod o ystyriaethau sy'n cyfrannu at bennu a chynnal lleoedd da. Bu i'r Comisiwn Datblygu hefyd ddatblygu a chyhoeddi ei Ganllaw Creu Lleoedd i gefnogi arfer da fel adnodd ar gyfer creu lleoedd ymarferol.



### Cynllun Cyfarthfa

Cafodd cynlluniau i drawsnewid Castell Cyfarthfa Merthyr Tudful a'i ardal gyfagos yn amgueddfa o safon ryngwladol mewn parc cyhoeddus 100 hectar eu cymeradwyo'n unfrydol gan Gyngor Merthyr Tudful ym mis Tachwedd 2020. Gweithiodd y comisiwn yn agos gyda'r awdurdod lleol i gynnig bron pedair blynedd o gymorth cleientiaid a mentora prosiect i weithredu'r uwchgynllun.

Cafwyd lansiad ffurfiol o'r Cynllun Cyfarthfa ym mis Ionawr 2021, yn dathlu gwaith y tîm aml-ddisgyblaethol sydd wedi cael ei arwain gan Ian Ritchie Architects, sydd ag enw da'n rhyngwladol, a'i gefnogi gan y Comisiwn Dylunio. Bellach mae cwmni newydd wedi cael ei ffurfio - Cyfarthfa Foundation - i fwrw ymlaen â'r cynllun. Mae bellach yn ceisio statws elusennol.




### Lleoedd ar Gyfer Bywyd 2

Gyda chefnogaeth Julie James AS a Hannah Blythyn AS, gwnaethom gyhoeddi Lleoedd ar gyfer Bywyd 2 ym mis Ionawr 2021. Yn cynnwys cyfres o erthyglau gan benseiri, dylunwyr a gweithwyr proffesiynol amgylchedd adeiledig penigamp, y cyhoeddiad yw'r ail mewn cyfres sy'n deillio o'n cynhadledd gyntaf a gynhaliwyd yn 2016, a'r nod oedd mynd i'r afael â thair ac ansawdd y lleoedd rydym yn eu creu i fyw ynddynt.

### Aiddychmygu

Cafodd artistiaid, penseiri a phobl sy'n dwlu ar adeiladau a lleoedd wahoddiad i gyfrannu at gyhoeddiad ar y gweill, gyda darluniau sy'n ail-ddychmygu, ail-ddyfeisio neu ail-ddehongli bywydau a straeon rhai o strwythurau mwyaf hyfryd Cymru, sy'n aml yn mynd yn angof. Roedd y cyflwyniadau'n cynnwys crynodeb hyd at 400 gair gyda dau fraslun sy'n arddangos sut gallant bellach gael eu gwneud yn ddarluniadau hyfryd i'w cynnwys mewn cyhoeddiad arbennig iawn fydd yn cael ei lansio'n nes ymlaen yn 2021.



## Bodloni anghenion cenedlaethau'r dyfodol

Mae dylunio da'n hanfodol i greu lleoedd da a lles ac ansawdd bywyd pobl Cymru. Er nad oes gan DCFW Ltd ddyletswydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, fel sefydliad rydym yn arfer y pum ffordd o weithio ac yn ymateb i'r saith nod, ac yn credo bod datgloi manteision dylunio da'n hanfodol i effeithlonrwydd adnoddau hirdymor, gwydnwch yr hinsawdd a llesiant.

Mae'r Comisiwn yn gweithio'n wirfoddol yn ysbryd y Ddeddf ac yn ei chefnogi, gan gynnwys ei themâu allweddol, targedau a'r pum ffordd o weithio. Rydym yn bwriadu budd cyhoeddus **hirdymor**, gan gymryd camau cynnar a rhoi cyngor i **atal** problemau rhag digwydd, **integreiddio** ein gwasanaethau ledled sectorau a disgyblaethau a **chydweithio** gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid i hyrwyddo gwell cyfranogiad ac **ymyriad** mewn dylunio da a chreu lleoedd drwy weithredu cydweithredol a systemig. in good design and place making through collaborative and systemic action.

Drwy weithredu fel hyn a pharhau i gryfhau ein model busnes cyd-gynhyrchu, rydym hefyd yn gallu hyrwyddo a chefnogi'r saith nod llesiant ar gyfer:

Cymru gynaliadwy; Cymru ffyniannus; Cymru wydn

Cymru iachach; Cymru mwy cyfartal; Cymru gyda chymunedau cydlynol

Cymru gyda diwylliant bywiog ac iaith sy'n ffynnu; Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Mae'r Comisiwn yn rheolaidd yn hyrwyddo dylunio cynaliadwy da; cymdogaethau sydd wedi'u cysylltu'n dda a'u dylunio'n dda, sy'n ddeniadol, yn gynhwysol ac yn ddiogel sy'n helpu i gefnogi cymunedau cydlynol a lleoedd cynaliadwy. Mae amgylcheddau sydd wedi'u dylunio'n dda, systemau trafndiaeth, seilwaith glas-gwyrdd, adeiladau sy'n perfformio'n dda, anheddiadau sydd wedi'u cysylltu'n dda a threfluniau a stryduniau actif yn hanfodol o ran ymatebolrwydd hinsawdd a datgarboneiddio. Maent yn unigryw, yn gyfoethog yn ddiwydiannol ac yn lleoedd ble gall pobl ffynnu.

Dyna pam y gwnaethom groesawu cyhoeddiad yr Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf yn 2020; yn hyrwyddo cynllunio effeithiol, dylunio a datblygiad ein lleoedd, systemau a seilwaith i fynd i'r afael â heriau hirdymor a sicrhau llesiant. Rydym yn gyson yn hyrwyddo symleiddio strategaethau datblygu cynaliadwy ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau ac ynni a pherfformiad uchel ym mhob prosiect i wella gwerth. Rydym yn gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gan sicrhau bod ein harbenigedd ar gael i gefnogi'r gofynion deddfwriaethol a gwneud Cymru'n lle gwell.

Rhaid i brosiectau adfywio a seilwaith a ariennir yn gyhoeddus, ysgolion a gofal iechyd fod yn effeithlon ac o'r radd flaenaf os ydym am fodlon disgwyliadau nawr ac i'r dyfodol. Yn y prosiectau hyn, caiff costau dylunio gwael eu huchafu gan yr effaith negyddol ar gyflawniad, iechyd ac adferiad, llesiant a diogelwch. Mae'r llesiant a'r ansawdd bywyd sydd ar gael i'n cymunedau yng Nghymru yn flaenoriaeth, ac ni ddylai cronfeydd cyhoeddus orfod talu costau dylunio gwael.

Mae'r caffaeliad Model Buddsoddi ar y Cyd (MIM) a mentrau ar y cyd a dulliau eraill o Bartneriaethau Preifat Cyhoeddus (PPP) yn ffyrdd pwysig o gyflawni cyfleusterau addysg ac iechyd gwell. Fodd bynnag, rhaid i'w capasiti i gyflawni ansawdd a pherfformiad dylunio gwell fod yn amcan allweddol. Rhaid cryfhau'r capasiti hwn a'i amdiffyn os yw prosiectau cyhoeddus am fod yn ddigon uchelgeisiol i gyfrannu'n llawn at wireddu nodau polisiau a deddfwriaeth yng Nghymru. Yn benodol, rhaid iddynt fynd i'r afael ag amcanion Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisiau ar sail lleoedd. Rhaid i asedau sy'n dychwelyd i'r fantolen gyhoeddus fod o safon sydd ddigon uchel i gyfleu gwerth cyhoeddus hirdymor.

Mae ymarferwyr dylunio'n gyflogwyr pwysig ac yn hanfodol ar gyfer entrepreneuriaeth, sgiliau ac arloesedd yn economi Cymru. Mae talentau o'r fath yn gofyn am raddfa, uchelgais a chwmpas prosiectau sy'n dyheu i fod o'r radd flaenaf fel bod modd i'w cyfleoedd a'u proffil yn lleol a thramor gael eu cryfhau. Mae dylunio a pholisi cynllunio a deddfwriaeth llesiant yng Nghymru'n ddigon uchelgeisiol ac yn edrych tua'r dyfodol, er mwyn creu'r amodau ar gyfer lleoedd hyfryd a boddhaus o safon. Mae'r uchelgais a'r dyhead hwnnw'n gofyn am y sgiliau cywir a'r gorau gan ein talent dylunio newydd i gyflawni a sicrhau addasrwydd ar gyfer y dyfodol.

Lluniau: Diwrnod ymweliad safle 16 Ebrill 2019 yng Nghyfarthfa ar gyfer timau bidio posibl Cynllun Cyfarthfa





## Cynllun Cyfarthfa – astudiaeth achos

### Cefndir

Fel eicon diwydiannol, gwleidyddol a chymdeithasol yn hanes Cymru, roedd Merthyr Tudful yn cael ei adnabod am arloesedd ar ddiwedd yr 18fed a'r 19fed ganrif, gan drawsnewid o fod yn dreffan fechan i fod yn dref fwyaf Cymru, gan ddod yn ganolfan gynhyrchu haearn fwyaf'r byd.

Mae stori Merthyr fel 'canolbwynt y chwyldro diwydiannol' yn fan cychwyn i fynd i'r afael â heriau'r 21ain ganrif. Mae gweledigaeth heddiw'n un o drawsnewid; gweithio ar y cyd gyda natur i ddathlu ein treftadaeth er budd cenedlaethau'r dyfodol.



### Dechrau arni - y charette


Ar 21 Hydref 2017 yng Nghastell Cyfarthfa, Merthyr Tudful, gwnaeth Comisiwn Dylunio Cymru ac Ysgol Pensaernïaeth Cymru Prifysgol Caerdydd ddod at ei gilydd ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, tîm aml-ddisgyblaethol ac ystod eang o randdeiliaid i sgopio'r posibilrwydd o drawsnewid y dref a'r dirwedd gyfagos.

Roedd yr ymarfer hwn yn ceisio ffyrdd o wneud asedau treftadaeth Merthyr yn bwysicach, gan danlinellu eu harwyddocad rhyngwladol go iawn. Daeth y syniad i fynd at y Cyngor a chynnig y syniad creadigol hwn ar raddfa fawr o sgwrs, a gafodd ei hadlewyrchu mewn llythyr a ysgrifennwyd a chafodd ei lofnodi gan y tri chydweithiwr creadigol.

Wedi diwrnod dwys o greu syniadau, dyfeisiwyd y Charette, wedi'i hwyluso a'i gyflawni gan Gomisiwn Dylunio Cymru. Gyda chymorth Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr ac Ymddiriedolaeth Treftadaeth Merthyr, daeth y digwyddiad hwn â dros 60 o feddyliau creadigol ynghyd gan gynnwys pobl leol, penseiri, cynllunwyr, arbenigwyr treftadaeth, penseiri tirwedd ac artistiaid i helpu i lywio gweledigaeth ar gyfer y dyfodol.

Rhywbeth oedd yn hanfodol bwysig oedd y ffordd y gwnaethom ymgysylltu ag aelodau'r gymuned. O'r dechrau, roedd ein dull yn agored ac yn dryloyw er mwyn sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu. Parhaodd hyn drwy'r gwaith uwchgyllunio lle cafodd y tîm dylunio eu penodi.

Gyda'n gilydd, gwnaethom ystyried sut allai Castell Cyfarthfa, y dirwedd estynedig a'r dreftadaeth adeiledig ddod yn gyrchfan a phrofiad rhyngwladol o safon i ymwelwyr, gan hyrwyddo'n well ei synwyr o le amlwg. Gwnaethom edrych ar y ffyrdd newydd y gallai'r asedau canolog hyn gael eu cysylltu â'r dref a thu hwnt i sbarduno adfywiad a thwristiaeth, uchafu effaith a chreu budd cyhoeddus. Bu i'r canfyddiadau amlygu pedwar o feysydd strategol integredig, a gyhoeddwyd yn *Crucible*, yr adroddiad wnaeth ddeillio o'r charette:



1. Cadeirlan ar gyfer ein treftadaeth ddiwylliannol
2. Creu tirwedd gysylltiedig
3. Tu hwnt i Gyfarthfa - Tu hwnt i Ferthyr
4. Fframwaith digwyddiadau gydol y flwyddyn

lle roeddem i gyd yn bresennol er mwyn ateb cwestiynau a cherdded drwy'r safle cyn i'r broses dendro ffurfiol ddod i ben a chael ei gwerthuso.

Roedd angen i bob un o'r timau bidio gynnwys penseiri, peiriannwyr, ymgynghorwyr costau, penseiri tirwedd, cynllunwyr busnes ac arbenigwyr ymgysylliad cyhoeddus. Cafodd saith o dimau rhyngwladol eu dewis ar gyfer cyfweiliad gan banel arbenigwyr Comisiwn Dylunio Cymru dros gyfnod o ddeuddydd.

Roedd panel cyfweiliad arbenigol y Comisiwn yn efelychu'r arbenigedd fyddai ei hangen, gan olygu bod gan y panel cyfweiliad yr un ddealltwriaeth a phrofiad arbenigol â'r timau oedd yn cael eu cyfweiliad. Roedd swyddogion o'r Cyngor o gaffael ac adfywio hefyd yn aelodau o'r panel cyfweiliad.

Cadarnhawyd mai Ian Ritchie Architects oedd y bidwyr llwyddiannus ym mis Awst 2019, a gwnaethant ddechrau ar astudiaeth 12 mis. Roedd yn canolbwyntio ar ddychmygu ffyrdd o ail-adfywio'r asedau hanesyddol ym Merthyr a dychmygu syniadau ategol a chyfoes rhagorol fyddai'n uchafu'r parc ac adfywio'r ardal a balchder pobl yn eu hanes, diwylliant a'r amgylchedd.

Rydym yn falch iawn o fod wedi gweithio gydag Ian Ritchie Architects a phobl Merthyr i gyflawni astudiaeth gynhwysfawr sy'n darparu fframwaith ar gyfer rhaglen o drawsnewid dros 20 mlynedd; gan gyflwyno synthesis o'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol drwy ymyriadau corfforol hen a newydd.

### Yr arfarniad strategol

Yn dilyn y *charette*, bu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful dderbyn yr holl ganfyddiadau o'r adroddiad. Parhaodd y Comisiwn Dylunio i gefnogi'r Cyngor drwy ysgrifennu briff ar gyfer uwchgyllunio i'w ddatblygu, ar sail y canfyddiadau ac ar gyfer proses benodi i sicrhau tîm dylunio aml-ddisgyblaethol i arwain y broses uwchgyllunio.

Yn dilyn tendr agored, cafodd tîm aml-ddisgyblaethol dan arweiniad Ian Ritchie Architects ei benodi fis Awst 2019 i gyflawni arfarniad strategol o Barc Cyfarthfa a'i gyd-destun ym Merthyr Tudful a rhanbarth ehangach y cymoedd o dde Cymru yn rhan o ymarfer uwchgyllunio. Rhoddodd Gomisiwn Dylunio Cymru gymorth cleientiaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer y broses benodi gyda briff dan arweiniad dylunio a chanllaw tendr wnaeth ddenu diddordeb byd-eang sylweddol.

Pennwyd gweithgor prosiect gyda phartneriaid o'r Comisiwn, Cyngor Merthyr a hyrwyddwr y prosiect Geraint Talfan Davies er mwyn llywio'r arfarniad strategol a'r broses dendro. Roedd hyn yn cynnwys cyfle i fidwyr ofyn cwestiynau a mynd i ymweliad safle

## Datblygu'r weledigaeth

Dechreuodd y tîm dylunio drwy wella dealltwriaeth o ba mor uchelgeisiol a thrawsnewidiol y gall prosiectau fod, a sut mae llawer wedi cael eu cyflawni'n llwyddiannus yn rhyngwladol - a llawer ohonynt mewn cyn-ganolfannau diwydiannol megis Merthyr ac ardal Cyfarthfa. Cafodd llawer o enghreifftiau eu cyhoeddi gan y Comisiwn Dylunio i helpu i lywio a chefnogi'r gwaith.

Erbyn diwedd Hydref 2019, cawsom glywed am feirws anadlol oedd yn lledaenu dros y byd. Erbyn dechrau 2020, roedd y coronafeirws Covid-19 yn effeithio ar waith pob un ohonom, ond bu i dîm Ian Ritchie barhau i ddarparu rhaglen ymgysylltu sylweddol oedd yn cynnwys llawer iawn o randdeiliaid, grwpiau cymunedol ac unigolion. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau briffio i sicrhau bod yr ymgysylltu mor eang ag sy'n bosibl - er bod rhaid i lawer fod ar-lein oherwydd cyfyngiadau teithio.

Parhaodd y tîm hefyd i gwrdd yn ffurfiol ac yn anffurfiol gyda Chomisiwn Dylunio Cymru - gyda'r un tîm arbenigol, i gyflwyno canfyddiadau a meddyliau cynnar mewn 'adolygiadau dylunio strategol' ar bob cam. Roedd rhain yn ofyniad o'r brîff cychwynnol a chawsant eu defnyddio i gefnogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel bod modd iddynt ystyried yn llawn, deall yn well a chraffu canfyddiadau ar gyfer bob cam cyn iddynt gael eu cadarnhau a chyn dechrau ar y cam nesaf. Cafodd yr adolygiadau strategol hyn eu hategu hefyd gan gyswllt rheolaidd gyda Chomisiwn Dylunio Cymru, y tîm dylunio a'r gweithgor. Roedd hyn yn golygu ein bod gyda'r Cyngor bob cam o'r ffordd ac yn rhoi ein harbenigedd i'r prosiect.

## Cynllun Cyfarthfa

Y gwaith a wnaeth Ian Ritchie Architects [yw Cynllun Cyfarthfa](#) - cynllun uchelgeisiol a dogfen waith sy'n nodi llwybr i drawsnewid Castell Cyfarthfa, Merthyr Tudful, yn amgueddfa ac atyniad o safon i ymwelwyr, mewn parc cyhoeddus 100 hectar. Disgwylir iddo ddenu dros hanner miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn.



Ar ôl cael cymeradwyaeth unfrydol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ym mis Tachwedd 2020, cafodd Cynllun Cyfarthfa ei lansio'n ffurfiol ar-lein ar 12 Ionawr 2021 lle roedd dros 80 o randdeiliaid allweddol yn bresennol, gyda chefnogaeth Comisiwn Dylunio Cymru a dan arweiniad y Cyngor.

Mae'r adroddiad a gyhoeddwyd yn nodi cynllun tri cham ar gyfer y castell a 'Pharc Ardal Cyfarthfa' a fydd yn dathlu hanes a threftadaeth unigryw Merthyr, i sbarduno adfywiad cymdeithasol a llwybr i ddathlu a gwella'r amgylchedd naturiol, gan greu lleoliad hamdden, addysg a gwyddoniaeth ardderchog a chanolfan greadigol sy'n croesawu'r gymuned gyfan.

Mae Cynllun Cyfarthfa yn cynnwys dros 70 o brosiectau ategol posibl wedi'u rhannu'n rhai 'rhaid' a 'dylid'. Ymysg y cynigion allweddol mae:

- Bron dyblu maint Parc Cyfarthfa, gan ei ymestyn tua'r gorllewin a chroesawu'r ddwy ochr o'r Afon Taf, 'gwella tirwedd wedi'i hanafu'.
- Adfer Castell Cyfarthfa - cartref y Crawshays, y gwneuthurwyr haearn enwog o'r 19fed ganrif a chreu orielau arddangos a fydd yn dathlu hanes diwydiannol a chymdeithasol Merthyr Tudful a Chymru.

## Cyflwyno Sefydliad Cyfarthfa

Mae Cynllun Cyfarthfa yn uwchgyllun strategol â sawl haen ar gyfer ardal dreftadaeth Cyfarthfa, Merthyr Tudful a thu hwnt, a fydd yn cael ei weithredu dros y 25 mlynedd nesaf. Bydd yn adeiladu ar y weledigaeth yn deillio o'r Charrette dylunio cychwynnol gan Gomisiwn Dylunio Cymru yn 2017.

Bellach, mae adnodd pwrpas arbennig wedi cael ei bennu er mwyn cyflawni Cynllun Cyfarthfa. Caiff Sefydliad Cyfarthfa, y cwmni newydd sydd ar fin cael statws elusennol, ei gadeirio gan Geraint Talfan Davies gyda'r Cynghorydd Geraint Thomas a'r Cynghorydd Lisa Mytton yn Gyfarwyddwyr gyda Rowland Davies, o Geldards gynt a Helen Protheroe o Goleg Celf Brenhinol - maent i gyd yn Gyfarwyddwyr-Sylfaenwyr sy'n canolbwyntio ar gyflawniad y cynllun.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu cyllid o £1.2 miliwn i'r sefydliad i frwr ymlaen â'r prosiect, gan gynnwys:

- Parhau ag astudiaethau archifau hanesyddol i asesu pa gyfraniad all gwybodaeth a deunyddiau eu gwneud at gyflwyniad a dehongliad yr atyniad ymwelwyr arfaethedig
- Ymgysylltu â phreswylwyr lleol i sicrhau bod y safle'n adeiladu ar y ffocws newydd ar ddefnyddio manau gwyrdd a chymunedol i gefnogi ffyrdd o fyw iach a llesiant i sicrhau dull o'r gwaelod i fyny, ar sail cymunedol, a hirdymor o ran adfywio
- Dechrau ar waith trwsio brys i asedau hanesyddol Cyfarthfa yn unol â'r holl bolisiau a gweithdrefnau awdurdodau lleol, Cadw a Llywodraeth Cymru perthnasol.
- Pennu Bwrdd Sefydliad cryf, amrywiol a chynrychioladol a staff craidd er mwyn gwireddu'r weledigaeth yn yr uwchgyllun.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn falch iawn o roi cymorth cleientiaid parhaus i Sefydliad Cyfarthfa wrth iddo symud drwy'r camau cyflawni Cynllun Cyfarthfa.



## Adnoddau a blaenoriaethau

Mae'r Comisiwn Dylunio'n ffodus o gael cefnogaeth y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, a chael gwybod am ddyraniad o gyllideb refeniw flynyddol o £360,000 (1 Ebrill 2019-31 Mawrth 2020 ac 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021) sy'n mynd i'r afael â gorbenion sefydlog a chostau gweithredu. Mae'r data ariannol yma'n cynnwys yr holl orbenion ar gyfer y cyfnod. Mae'r gefnogaeth gan y Gyfarwyddiaeth wedi bod yn hanfodol i gynnal a gwella gweithrediadau. Yn hyn o beth, rydym wedi gallu dychwelyd i dîm llawn a thalu gorbenion rhent a chostau gwasanaeth yn ogystal â chynnydd pensiynau sydd y tu hwnt i'n dylanwad.

Rydym wedi gallu uno ein dyletswydd tuag at amcanion y cwmni gyda gofynion y cytundeb fframwaith gan gynnwys hyrwyddo creu lleoedd, darparu hyfforddiant a mewnbwn i fentrau cynllunio ehangach, creu lleoedd a datblygiadau polisi.

### Cyllideb wedi'i falansu 2019-2020 a 2020-21

DCFW Cyllideb ar gyfer 2020/2022	2019/20	2020/21
Eiddo/gofod swyddfa	£57,700.00	£64,100.00
Asedau/offer	£2,550.00	£2,050.00
Costau cyflogaeth	£247,400.00	£248,300.00
Gweinyddiaeth	£5,950.00	£6,900.00
Cyhoeddiadau/gwefan	£6,500.00	£10,200.00
Ffioedd proffesiynol	£16,150.00	£2,000.00
Treuliau	£6,000.00	£8,000.00
Gwasanaeth Adolygu Dylunio	£8,000.00	£6,000.00
Cymorth Grant 3ydd Parti	£5,000.00	£5,000.00
Costau amrywiol	£2,750.00	£2,750.00
Gwariant prosiect refeniw	£2,000.00	£4,700.00
	£360,000.00	£360,000.00

## Amcanion strategol ar gyfer 2021/22

Mae'n perfformiad yn arddangos graddfa ein cyrhaeddiad, ein partneriaethau a gwerth cydweithio aml-sector.

Mae Amcanion ein cwmni'n caniatu cwrmpas er mwyn hyrwyddo dylunio da mewn unrhyw ffordd. Mae ein llythyr cylch gwaith a'n fframwaith cyllid yn cryfhau hyn ac yn rhoi rhagor o ofynion ar gyfer prosiectau strategol a gwaith ychwanegol er mwyn bodloni amcanion a thelerau Llywodraeth Cymru a strategaethau cenedlaethol. Rydym yn gweithio o fewn y ffiniau hyn drwy ddefnyddio ein gwybodaeth o ymarfer go iawn, bob dydd, i lywio ein blaenoriaethau.

Mae mentrau critigol i Gymru, sydd â'r buddsoddiad cyhoeddus mwyaf sylweddol, hefyd yn golygu'r mwyaf o gyfleoedd creu lleoedd. Felly, bydd ein meysydd gwasanaeth craidd yn parhau i gael eu halinio a'u blaenoriaethu tuag at adnabod, cefnogi a hyrwyddo rhagoriaeth ddylunio ar gyfer gwerth cyhoeddus drwy greu lleoedd cynaiadwy yn y meysydd canlynol a'r mentrau strategol:

- Mewn prosiectau o arwyddocad strategol gan gynnwys ynni, trafndiaeth ac ardaloedd/safleoedd cynlluniau datblygu. Cysylltedd, symudiad a phrosiectau trafndiaeth ar draws Cymru sy'n hanfodol i harneisio gwerth economaidd a chymdeithasol - mae ein perthynas gyda Thrafnidiaeth Cymru'n hanfodol i hyn, yn ogystal â'r gwaith yn ymateb i ganfyddiadau'r SEWTC, y strategaeth drafndiaeth newydd a'n tystiolaeth i'r NICFW.
- I gefnogi'r cyfleoedd sy'n integreiddio dylunio da a dull ar sail lleoedd i'r ystâd gyhoeddus mewn iechyd ac addysg yn ogystal â chymdogaethau ac anheddiadau newydd, yn benodol rhai gyda dylanwad Llywodraeth Cymru, perchnogaeth neu fuddsoddiad.
- Lle bo modd adnabod dulliau arloesedd, eu cefnogi a'u rhoi ar waith ar raddfa at yr agenda datgarboneiddio, mewn tai newydd ac mewn prosiectau adfywio ehangach a safleoedd sy'n strategol bwysig.
- Lle bo ymarfer da'n gallu helpu cymunedau gwledig i elwa ar dirweddau byw ac unigryw, sy'n gallu cefnogi gwerth cymdeithasol a diwylliannol lle mae pobl yn ffynnu.
- Lle bo modd creu ymarfer da ac adnoddau, yn ogystal â'u hadnabod, eu rhannu a'u hyrwyddo er budd dylunio a chreu lleoedd da.
- Lle mae talent yn cael ei feithrin ac yn gallu ffynnu.

## Gofynion fframwaith

Mae gennym Fframwaith a llythyr Cylch Gwaith newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2025 sy'n gofyn i'r Comisiwn baratoi ar gyfer rhagor o waith a chyflawni. Mae hyn i'w groesawu, ac rydym yn edrych ymlaen at dderbyn mwy o fanylion ac eglurder o ran beth fydd hyn yn ei olygu i adnoddau a gwasanaethau.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i gyflawni mewnbwn targedig, sgilgar iawn a phrofiad a buddsoddi i ymarfer a chapasiti dadansoddi ymchwil y farchnad. Bydd hyn yn helpu i lywio cynllunio strategol a sgiliau creu lleoedd gan eu bod nhw'n debygol o gael eu hangen gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u ffocws ar greu lleoedd strategol.

## Integreiddio

Rydym yn cydnabod cyfyngiadau ein hadnoddau a'r angen i integreiddio blaenoriaethau gyda gofynion ein hamcanion cwmni, ein fframwaith cyllid, ein hymrwymiad i gydweithio a'r angen ar gyfer cynhyrchu incwm nad yw'n incwm y trysorlys. Er hynny, ar ôl ymgysylltu'n bositif gyda'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio a chael deiliant cyllideb positif gyda'u cymorth, credwn fod y dull strategol hwn yn gwasanaethu'r integreiddiad hwnnw orau.

Edrychwn ymlaen at siapio ein cynlluniau Term Llywodraeth a datblygu'r gwasanaethau cynghori strategol ar gyfer cynllunio datblygu lleol. Mae hyn fel sydd wedi'i nodi gan Julie James AS, gan ein partneriaid yn y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac o ganlyniad i ddatganiadau cefnodol yn yr adroddiad cyntaf gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

## Partneriaethau a rhwydweithiau

Rydym yn dal i fod wedi ymrwymo i gefnogi a chydweithio gyda chymuned dylunio actif, drwy bartneriaethau cryfach rhwng y Comisiwn a phroffesiynau a gweithio'n agos gyda Sefydliad Cynllunio Trefi Brenhinol Cymru (RTPI Cymru), Sefydliad Tirwedd Cymru a Chymdeithas Frenhinol Penseiri Cymru (RSAW). Rydym hefyd yn parhau i ddatblygu cylch ardderchog o actiwyr dylunio talentog drwy ein rhwydwaith HATCH sy'n tyfu. Rydym yn parhau i brofi galw mawr am wasanaethau, ac mae cyflawniadau y llynedd yn galonogol.

Rydym wedi ymrwymo i weithgareddau a gwasanaethau sy'n wynebu'r cyhoedd, i hyrwyddo adnoddau sy'n helpu pobl eraill i ddeall, ymgysylltu a chymryd rhan wrth siapio'r byd o'u cwmpas.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo rhagoriaeth dylunio a gweithredu'r agenda creu lleoedd. Rydym yn parhau i fanteisio ar ein rhwydweithiau ac yn ceisio cyfathrebu'n well y manteision o ddylunio da, gan ategu ein holl weithgareddau gyda chynghori dylunio arbenigol a strategol, tra'n dysgu'n barhaus gan enghreifftiau ymarfer byd go iawn.

## Rhanddeiliaid

Caiff ein holl weithgareddau eu monitor a'u hadrodd yn rheolaidd fel sy'n ofynnol yn ein prosesau ein hunain, trwy'r Bwrdd Cyfarwyddwyr, a thrwy gyfarfodydd rheolaidd gyda a dulliau adrodd Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn darparu ein gweithgareddau a'n gwasanaethau craidd, fel sydd wedi'i nodi yn y cynllun hwn, gan ymateb yn barhaus i'n hamcanion a'n nodau strategol, gofynion Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen, a bodloni anghenion ein rhanddeiliaid gan gynnwys:

- Y cyhoedd
- Llywodraeth Cymru a'n partneriaid Cyfarwyddiaeth nawdd
- Cyrff comisiynu, cleientiaid ac awdurdodau lleol
- Sefydliadau proffesiynol
- Partneriaid academaidd a diwylliannol
- Rhanddeiliaid ar draws sectorau

Rydym yn gwerthfawrogi ein partneriaid ac yn parhau i weithio gyda nhw, gan gydnabod cyfrifoldeb ar y cyd a'r ffaith na allwn gyflawni ein gweledigaeth ar ein pennau ein hunain. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y cyrff proffesiynol wrth inni ymateb i dargedau Llywodraeth Cymru a gofynion adrodd chwarterol, gan gynnwys darparu data fel sy'n ofynnol gan ein fframwaith cyllid.

## Adnoddau a bod yn gost-effeithiol

Cyflawnodd Comisiwn Dylunio Cymru ei raglen ar gyfer 2019/20 a 2020-21 yn y rhan fwyaf o feysydd neu wnaeth yn well na'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn benodol i'w gylch gwaith ac yng nghyd-destun effaith y pandemig. Byddwn yn cyflawni ein gweithgareddau drwy ein tri maes gwasanaeth yn 2021/22 yn unol â'n hadnoddau, a byddwn yn uchafu effaith yr adnoddau hyn lle bo'n bosibl gan gynnal effeithlonrwydd costau.

Byddwn yn cynnal rheolaethau ariannol llym, gan gynnal ein henw da o 16 mlynedd o statws barn archwiliad da ar bob rheolaeth ac adroddiad ariannol. Byddwn yn ceisio pob cyfle i gynyddu ein capasiti i ddenu incwm nad yw'n incwm y drysorlys lle bo'n ategol i'n hamcanion, ein cylch gwaith a'n gweledigaeth.

Bydd ein gweithgareddau'n cael eu cyflawni'n unol â'n hamcanion strategol, ein fframwaith a'n llythyr cylch gwaith a gytunwyd gan Lywodraeth Cymru. Ym mhob maes gwasanaeth, byddwn yn bodloni neu'n gwneud yn well na thargedau Llywodraeth Cymru a chynnal ansawdd uchel ein gwasanaethau ledled Cymru, i hyrwyddo gwerth dylunio da ledled sectorau a helpu i wneud Cymru'n lle gwell.

## Ein Bwrdd

Gyda chylch gwaith ledled yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru, rydym yn dîm aml-ddisgyblaethol o arbenigwyr.

Nid ydym yn sefydliad aelodaeth na'n gorff proffesiynol, ac nid ydym yn cynrychioli buddion unrhyw broffesiwn penodol. Gyda Gayna Jones yn cadeirio, mae'r Bwrdd yn cynnwys chwech o Gomisiynwyr. Ym mis Ebrill 2021, disgwyliwn i'r nifer gynyddu i with. Mae bob un yn Gyfarwyddwyr gwerthfawr, gan ddarparu adnoddau ychwanegol ac yn cynnwys unigolion ymrwymedig, sgilgar a brwdfrydig sy'n cael eu parchu ac sy'n llawn gwybodaeth.



### Gayna Jones

Mae Gayna wedi graddio o Brifysgol Aberystwyth, gyda phrofiad sector preifat, cyhoeddus a gwirfoddol gydol ei gyrfa. Gan ddechrau yn adnoddau dynol mewn cwmni Unilever, aeth ymlaen i weithio i Gymorth i Fenywod, gan setlo mewn gyrfa ym maes tai. Ar ôl degawd fel Prif Weithredwr Cymdeithas Dai, sefydlodd ei hymgyngoriaeth dai ei hun. Mae Gayna hefyd wedi gwasanaethu fel cynghorydd awdurdod lleol, hi oedd yr aelod annibynnol cyntaf a benodwyd i Bwrdd Reoliadol Cymru, a chafodd ei phenodi'n Gomisiynydd Bwrdd Comisiwn Dylunio Cymru yn 2021. MQae Gayna yn gymrawd y Sefydliad Tai Siartredig (FCIH) ac yn Gymrawd Cymdeithas Frenhinol y Celfyddydau (FRSA).



### Ian Carter

Mae Ian yn Gyfarwyddwr Grŵp Datblygu a Rheoli Asedau yn Grŵp Tai Cymunedol Cynon Taf ac mae'n arwain eu rheoli asedau, y cynnal a chadw, buddsoddiad a gynlluniwyd a'r swyddogaethau datblygu. Mae'n gynllunydd tref siartredig a dylunydd trefol cymwys, gan gael gradd Anrhydedd mewn Cynllunio Dinas a Rhanbarthol a Gradd Feistr mewn Dylunio Trefol ym Mhrifysgol Caerdydd. Gweithiodd Ian gyda'r sector preifat ac yna gyda thîm Rhaglenni Mawr Cyngor Dinas Casnewydd fel Prif Ddylunydd Trefol, cyn ymuno â Chartrefi Dinas Casnewydd ac arwain eu rhaglen adfywio uchelgeisiol ar gyfer ardal Pillgwenlli, Casnewydd. Mae gan Ian brofiad hir ac mae'n eiriolwr angerddol ar gyfer y Comisiwn a'i Wasanaeth Adolygu Dylunio.



### Elinor Gray-Williams

Mae Elinor yn Bensaer Siartredig ac yn Bensaer Cadwraeth Arbenigol RIBA. Ymunodd â Donald Insall Associates yn 2007 ar ôl cwblhau Ysgoloriaethau SPAB Lethaby a Plunket. Mae Elinor yn arwain swyddfa Conwy'r cwmni ac mae'n bensaer adeiladau hanesyddol profiadol gydag ymrwymiad cry fi Gymru a'i threftadaeth. Mae Elinor yn mwynhau'r heriau o ddylunio adeiladau newydd ac ymyriadau o fewn lleoliadau hanesyddol, ac yn gweithio'n greadigol i fanteisio i'r eithaf ar gynaliadwyedd.



### Philip Jardine

Mae Phil yn bartner ac yn Gyfarwyddwr Rhanbarthol ar gyfer yr is-adran Amgylchedd Adeiledig. Mae ganddo brofiad helaeth o waith datblygu cyhoeddus a phreifat ar raddfa fawr, mentrau ar y cyd, prosiectau adfywio a thrafodion eiddo'n ymwneud â'r sectorau llywodraethu, iechyd ac addysg.



### Ewan Jones

Mae Ewan yn bartner yn Grimshaw, sy'n gweithio'n helaeth gyda'u gwaith trafndiaeth a pheirianeg sifil, uwchgynllunio a phrosiectau masnachol. Mae'n gweithio'n agos gyda datblygwyr mawr ac yn arwain prosiectau adeiladau'r swyddfa yn Llundain. Yn dilyn cwblhau 25 Gresham Street, bellach pencadlys Lloyds-TSB, cafodd ganiatad cynllunio i ailddatblygu cyn safle Cyfnewidfa Stoc Llundain ac arweiniodd ddyluniad yr Adeilad St Botolph ar gyfer Minerva. Mae Ewan hefyd yn cyd-Gadeirydd panel Adolygu Dylunio DCFW.



### Fiona Nixon

Fiona yw Pennaeth Prosiectau Ystadau ym Mhrifysgol Abertawe. Ar ôl graddio o Ysgol Pensaerniaeth Cymru, treuliodd sawl blwyddyn mewn practis personol yn Glasgow yn gweithio'n bennaf ar gyfleusterau ymchwil ar gyfer y Sector AU. Ymunodd â Phrifysgol Abertawe yn 1994. Yn ei rôl bresennol, mae'n rheoli rhaglen gymhleth o brosiectau ledled ystâd y Brifysgol. Mae Fiona'n eiriolwr mawr o gydweithio ledled y diwydiant adeiladu, ac mae ganddi brofiad helaeth o gaffael a rheoli fframweithiau ymgynghori a chontractwr.

## Atodiad 1

### Datganiad Llywodraethu

Mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi ymrwmo i lywodraethu da. Cyfeirir at ein Cadeirydd a'n Bwrdd o Gyfarwyddwyr fel Comisiynwyr. Yn gyfreithiol, maent yn gyfarwyddwr Comisiwn Dylunio, enw masnachu'r cwmni sy'n gyfyngedig gan warant, heb gyfranddaliadau cyfalaf, sef DCFW LIMITED Rhif Cwmni: 04391072, wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr fel is-gwmni sydd ym mherchnogaeth llwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru (bellach Gweinidogion Cymru). Mae ei swyddfa gofrestredig ar y 4ydd Llawr, Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd CF10 5FL.

Nid yw'r Comisiynwyr yn derbyn cyflog a chânt eu penodi gan Weinidogion Cymru drwy'r broses Penodi Cyhoeddus, gan adlewyrchu Safonau Pwyllgor Nolan ar Fwyd Cyhoeddus. Mae Prif Weithredwr y Comisiwn yn adrodd i'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr yn ei gyfarfodydd chwarterol a'r cyfarfod cyffredinol blyneddol, ac i Lywodraeth Cymru, drwy'r Gyfarwyddiaeth Gynllunio, ar sail chwarterol.

Mae'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr dan arweiniad Llawlyfr DCFW i Gyfarwyddwyr. Caiff ei lywio gan Egwyddorion Nolan, Deddf Cwmnïau a chan ganllawiau perthnasol a chyfredol eraill.

Mae Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau dan y Ddeddf Cwmnïau, gan gynnwys cytuno'r cyfeiriad strategol, arfer eu dyletswydd ariannol drwy weithredu bob amser er budd llwyddiant y cwmni, gyda gofal, diwydrwydd a sgiliau.

Mae'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr yn cael cefnogaeth gan Is-bwyllgor Ariannol a Phwrpas Cyffredinol gyda chylch gorchwyl llawn sy'n cael ei ddiweddarau'n rheolaidd. Mae Rheolwr Adnoddau a Chyllid y Comisiwn yn monitro ac yn diweddarau materion cydymffurfio'n rheolaidd ac yn adrodd i'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr gyda phapurau gweithredol, sy'n cael eu rhannu cyn cyfarfodydd. Mae'r holl bolisiau DCFW yn cynnwys Rheoli Risgiau, ac maent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd a'u cynnwys yn y Llawlyfr i'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr. Caiff ymsefydlu a hyfforddiant pellach ei gynnig a'i ddarparu'n rheolaidd i'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr a'r staff fel sy'n ofynnol, ac fel sy'n cael ei nodi'n angenrheidiol ac yn werthfawr.

Nod y Cadeirydd a'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr wrth arfer eu pwerau bob dydd i'r Prif Weithrediaeth yw cyflawni cydbwysedd critigol rhwng cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol. Mae'r Cadeirydd a'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr yn ofalus, er eu bod nhw'n dirprwyo eu pwerau a'u awdurdod i staff gweithredol, nid ydyn nhw'n dirprwyo eu cyfrifoldeb. Maent yn arfer eu pwerau'n annibynnol wrth gyflawni cyfrifoldeb ar y cyd. Maent yn cael eu trafod a'u rhestru'n gywir ac yn briodol ar wefan DCFW a gwybodaeth arall y cwmni.

## Atodiad 2

### Cydraddoldeb, y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Comisiwn yn gweithredu'n unol â Chanllawiau a Deddfwriaeth Cydraddoldeb ac mae trefniadau ar waith ar gyfer polisiau hyblygrwydd ac sy'n addas i deuluoedd. Mae'r Comisiwn wedi ymrwmo i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ei waith a'i ddiwylliant, ac i chwarae ei ran i helpu i fynd i'r afael â rhwystrau a chyflawniad ac anghydraddoldebau cydnabyddedig ymhlith proffesiynau dylunio ac amgylchedd adeiledig ehangach.

Cafodd proses recriwtio Comisiwn Dylunio Cymru ar gyfer Comisiynwyr newydd, drwy'r Penodiadau Cyhoeddus 2016, ei astudio gan Is-adran Dyfodol Tegach Llywodraeth Cymru fel model o arfer da. Mae ein prosesau recriwtio a'n dull o ran Penodiadau Cyhoeddus ar lefel bwrdd yn caniatáu ymgyfarwyddo, cysgodi a chyfluoedd hyfforddiant. Rydym yn parhau i ddod o hyd i ffyrdd i wella'r dull hwn. Gallwch ddod o hyd i'r astudiaeth achos ar ein gwefan: <https://dcfw.org/board-diversity-case-study-report/>

Mae'r Comisiwn yn parhau i fynd ar ôl ei ymrwymiad i ragor o gynhwysiant, cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn ein nod i adlewyrchu realiti byd amrywiol, rydym yn parhau i ddatblygu pob agwedd ar lywodraethu a gweithrediadau. Ein nod yw hyrwyddo cyfleoedd rwy ystod o blatfformau a grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, gan gynnig ymsefydlu priodol, cysgodi, hyfforddiant a chyfleoedd mentora ar bob lefel.

Wrth i ni hyrwyddo dylunio da ledled sectorau, rydym yn parhau i geisio adeiladau a lleoedd sydd wedi'u dylunio'n dda sy'n gynhwysol, yn hygyrch, ac yn ddiogel i bawb eu defnyddio. Mae cynhwysiant ymysg yr adnoddau mwyaf pwerus sydd genny mi helpu i greu lleoedd da a defnyddio'r pwll talentau mwyaf eang sydd ar gael i ni.

Mae Cymru'n genedl ddwyieithog ac rydym yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle i fanteisio ar ddefnydd o'r Gymraeg. Fel cwmni bach sy'n gweithio ar raddfa'n is na throthwyon Safonau'r Gymraeg, a heb lawer o adnoddau, mae DCFW yn dal i fod wedi ymrwmo i drin y ddwy iaith yn gyfartal a defnyddio'r Gymraeg yn ein gweithgareddau ac wrth gyhoeddi a rhannu ein deunyddiau craidd, lle bo adnoddau ar gael. Nod y Comisiwn yw trin y Gymraeg yn yr un modd â'r iaith Saesneg, ac mae darpariaethau ar gael i gynnal hyfforddiant a digwyddiadau eraill gyda chyfleusterau i ddefnyddio'r Gymraeg ac mewn lleoliadau dwyieithog. Yn ei ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg, mae'n defnyddio canllawiau swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. Rydym yn parhau i wella ein dull o ran gweithgareddau bob dydd a'n platfformau cyfathrebu lle bo'n bosibl.



## Atodiad 3

### Nodyn ar adnoddau ariannol a dynol

Caiff yr holl gronfeydd refeniw eu dyrannu'n uniongyrchol i orbenion a gweithgareddau'r Comisiwn. Ar ôl costau sefydledig, gan gynnwys cyflogau, ymrwymiadau cronfeydd pensiwn, gweinyddiaeth ac eiddo, mae'r Comisiwn yn dyrannu adnoddau ariannol yn uniongyrchol tuag at ei weithgareddau ledled Cymru. O bryd i'w gilydd, gall Llywodraeth Cymru geisio cymorth arbenigol gan y Comisiwn a gall amlinellu prosiectau cyfalaf ychwanegol a ariennir ar wahân. Caiff prosiectau o'r fath eu hamlinellu mewn dogfennau cwmpas manwl a'u cytuno ymlaen llaw gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio a'u gweinyddu'n briodol i hwyluso cyflawniad prosiectau.

Mae'r wybodaeth ariannol a nodir yn y cynllun hwn yn cynrychioli cyfanswm yr incwm, gan gynnwys cronfeydd prosiect ymrwymedig, gan nodi sefyllfa'r gyllideb ar ddechrau'r flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020 ac 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021.

Mae'r cyfraniad ychwanegol gan weithwyr proffesiynol o'r sector preifat o bractis preifat yn sylweddol ar £165,187 neu 23% o drosiant blynyddol DCFW (Ffig A isod).

Mae'r ymrwymiad sector preifat hwn yn cefnogi model busnes unigryw DCFW ac yn cyfrannu'n sylweddol at ein gwasanaethau craidd, yn benodol y Gwasanaeth Adolygu Dylunio a hyfforddiant awdurdodau lleol. Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, rydym yn gwerthfawrogi partneriaethau o'r fath a'u capasiti i uchafu gwerth budd cyhoeddus.

Mae't tîm staff craidd bychan yn cael ei gefnogi gan gapasiti ychwanegol ar ffurf y gwirfoddolwyr arbenigol hyn o'r sector preifat sy'n gweithio fel Panelwyr Adolygu Dylunio. Mae aelodau o'r Panel Adolygu Dylunio arbenigol, aml-ddisgyblaethol hwn yn weithwyr proffesiynol, sy'n brofiadol ym mhob math a graddfeydd prosiectau datblygu. Mae eu sgiliau a'u profiad yn cynnwys eiddo masnachol, adfywio, pensaernïaeth, cynaliadwyedd, dylunio trefol a thirwedd, ymgysylltiad cymunedol, seilwaith ynni gan gynnwys gwynt morol ac alltraeth/atraeh, a pheirianneg, cynllunio a thrafnidiaeth.

Mae arbenigwyr o'r diwydiant sy'n gweithio fel panelwyr yn rhai di-dâl ac yn cael eu penodi drwy gyfweiliad cystadleuol, am gyfnod o ddwy flynedd, yn amodol ar adolygiad perfformiad ac ail-bendiad. Mae'r Panelwyr yn benodol hanfodol gan eu bod nhw'n ategu cyflawniad ein Gwasanaeth Adolygu Dylunio ac yn rhoi o'u hamser a'u harbenigedd bob mis am o leiaf deuddydd, weithiau tri. Mae Panelwyr hefyd yn helpu'r Comisiwn wrth eirioli, mewn digwyddiadau, seminarau ac wrth gyflawni gwaith cynghori dylunio a chydachleientiaid.

Nid yw Panelwyr yn cael cyflog am eu cyfraniadau i wasanaethau Adolygu Dylunio, ond maent yn cael eu had-dalu am gostau wrth gyflawni dyletswyddau DCFW. Maent yn dod ag arbenigedd gwerthfawr iawn tra bod eu practisau preifat, eu partneriaid busnes a'u cyflogwyr yn rhoi amser iddyn nhw i roi i'r Comisiwn, gan ategu'n effeithiol rhaglenni a gweithgareddau cenedlaethol DCFW. Mae hyn yn golygu bod ein Gwasanaeth Adolygu Dylunio strategol a chenedlaethol ar gael am ddim i bob defnyddiwr, mae o safon uchel iawn ac mae'n unigryw i Gymru a'r DU.

Mae gwerth ymrwymiad rheolaidd a ailadroddir yr aelodau Panel Adolygu Dylunio, sy'n dod o'r preifat sector yn bennaf, wedi cael ei gyfrifo a gellid ei ddeall yn Ffigur a) isod. Mae'r gwerth wedi cael ei lywio gan raddfeydd a argymhellir gan RIBA am rolau uwch bartneriaid mewn practiau preifat, y mae ein panel y neu cynnwys, a chan raddfeydd tystion arbenigol sy'n berthnasol i banelwyr sy'n cyfrannu at adolygiadau ar drafnidiaeth ac ynni yn ogystal â Datblygiadau o Arwyddocad Cenedlaethol (DNS) a hefyd Prosiectau Seilwaith o Arwyddocad Cenedlaethol (NSIPS) a bennir gan yr Arolygiaeth Gynllunio <https://infrastructure.planninginspectorate.gov.uk/projects/Wales/> Mae gwerth y gefnogaeth hon yn cael ei nodi'n flynyddol yn ein hadroddiadau diwedd blwyddyn ariannol ac yn cynrychioli ffigur sylweddol, gan arddangos ymrwymiad y sector preifat i gymorth mewn nwyddau i fodel gweithredol a gwasanaethau DCFW.

Mae ein Gwasanaeth Adolygu Dylunio ar gael ledled Cymru a'r nod yw bod yn symudol ac yn hyblyg. Yn unigryw i'r DU, mae hefyd ar agor ar gyfer presenoldeb at ddibenion datblygiad proffesiynol a hyfforddiant. Mae gwasanaeth Adolygu Dylunio'r Comisiwn yn dod ag enw da ar gyfer ansawdd, gonestrwydd, arbenigedd a chadernid.

Mae ein hasesiadau risg yn blaenoriaethu'r enw da hwnnw a'i ddibyniaeth ar safonau uchel a'r gallu i ddenu aelodau bwrdd sgilgar, staff a phanelwyr profiadol ac ymrwymedig. Mae'r Comisiwn yn gyson yn cynnal ymrwymiad gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr rhagorol. Rydym wedi cadw ymarferwyr ardderchog ac wedi denu maes cryf iawn i benodi ohono mewn blynyddoedd i ddod. Rydym yn parhau i weithredu galwad agored ar gyfer datganiadau o ddiddordeb er mwyn sicrhau dilyniant.

Mae Bwrdd o Gyfarwyddwyr DCFW, y tîm staff, Panelwyr Adolygu Dylunio a'r rhwydwaith HATCH gyda'i gilydd yn cynrychioli'r rhwydwaith aml-ddisgyblaethol mwyaf amrywiol o weithwyr proffesiynol ac arbenigwyr dylunio yng Nghymru. Maent yn cynrychioli rhwydwaith actif ac ymgysylltiedig cenedlaethol o ddylunwyr ac arloeswyr talentog, sy'n rhannu'r nod cyffredin o hyrwyddo dylunio da i helpu i wneud Cymru'n lle gwell.

Ffig a.  
Cymorth mewn nwyddau'r sector preifat 2019-20.

2019/20 Dyddiad	Cyfarfod	Nifer DRPM	Panelwyr	Swm oriau	Cost cynrychioladol
<b>Ebrill</b>					
11	Adolygiad Dylunio	3	CK/CJe/CJo	15	£1,200.00
25	Adolygiad Dylunio IHP	3	JB/AW/KD	21	£1,925.00
<b>Mai</b>					
2	Adolygiad Dylunio IHP	2	TA/JY	10	£1,250.00
22	Adolygiad Dylunio IHP	3	AL/JH/RW	18	£2,100.00
30	Adolygiad Dylunio IHP	3	JB/JA/MT	18	£2,100.00
<b>Meh.</b>					
4	Gweithdy'r Mwmbwls	1	AL	8	£1,200.00
9/10	Gweithdy Sir y Fflint	1	SR	20	£3,000.00
13	Adolygiad Dylunio	4	TA/LS/SP/MK	25.5	£3,900.00
19	Adolygiad Dylunio IHP	3	JVS/MA/CJ	25.5	£3,825.00
21	Adolygiad Dylunio IHP	3	AL/CJe/SS	25.5	£3,825.00
26	Adolygiad Dylunio IHP	3	SR/ER/AW	25.5	£2,112.00
<b>Gorff.</b>					
3	Adolygiad Dylunio IHP	3	JB/TA/JY	22.5	£2,625.00
5	Adolygiad Dylunio IHP	2	LS/CJe	15	£2,250.00
11	Adolygiad Dylunio	6	JVS/AW/JY/MGJ/SS/HK	48	£5,200.00
<b>Awst</b>					
6	Adolygiad Dylunio	4	EJ/SR/MA/JA	12	£1,500.00
15	Adolygiad Dylunio	5	KD/SS/RW/MGJ/AW	35	£3,675.00
22	Cymorth cleientiaid Redrow	1	MT	8	£1,200.00
28	Gweithdy Felindre	4	TA/SR/MA/AS	48	£6,000.00
<b>Medi</b>					
19	Adolygiad Dylunio	6	CK/AL/MK/AK/JL/NW	54	£5,600.00
27	Gweithdy Cynulliad LIC	2	SS/AS	16	£2,000.00
<b>Hydref</b>					
17	Adolygiad Dylunio	5	KD/SC/WM/JH/CJe	40	£4,200.00
<b>Tachwedd</b>					
21	Adolygiad Dylunio	5	KD/JB/AW/TA/RW	40	£4,200.00
<b>Rhagfyr</b>					
5	Digwyddiad GHA	1	LS	1	£1,200.00
11	Gweithdy Ffarm Cosmeston	2	TA/KD	16	£2,000.00
12	Adolygiad Dylunio	5	KD/SR/SP/NW/JL	33	£3,575.00
<b>Ionawr</b>					
23	Adolygiad Dylunio	4	EJ/SS/MT/CJe	16	£2,400.00
<b>Chwefror</b>					
13	Adolygiad Dylunio	4	KD/SP/BS/SS	30	£4,125.00
<b>Mawrth</b>					
19	Adolygiad Dylunio	4	JVS/AK/MGJ/SS	34	£4,675.00
Cyfanswm = 23% o Drosiant Blynyddol DCFW					£82,862.00

Ffig a.  
Cymorth mewn nwyddau'r sector preifat 2020-21

2020/21 Dyddiad	Cyfarfod	Nifer DRPM	Panelwyr	Swm oriau	Cost cynrychioladol
<b>Ebrill</b>					
1	Cyfarfod Cadeirydd DR	5	EJ/SR/CK/KD/JVS	5	£700.00
2	Adolygiad Dylunio	3	JVS/MGJ/SS	27	£3,375.00
22	Cyfarfod Hwb y Cymoedd	2	SS/TA	2	£300.00
23	Adolygiad Dylunio	6	EJ/CJ/SS/NW/SP/KD	54	£5,400.00
30	Adolygiad Dylunio	2	SR/CJ	6	£1,250.00
<b>Mai</b>					
14	Adolygiad Dylunio	4	CK/MT/CJ/SS	22	£3,300.00
28	Adolygiad Dylunio	2	EJ/SP	8	£2,100.00
<b>Meh.</b>					
11	Adolygiad Dylunio	5	EJ/TA/SP/JY/KD	37.5	£4,875.00
<b>Gorff.</b>					
16	Adolygiad Dylunio	5	SR/EJ/CJ/SP/KD	35	£4,900.00
31	Adolygiad Dylunio	5	CK/SP/SS/MT/KD	30	£4,200.00
<b>Awst</b>					
6	Adolygiad Dylunio	3	AL/KD/JVS	25.5	£3,400.00
<b>Medi</b>					
2	Academi Trefoli	1	TA	2.5	£375.00
8	Adolygiad Dylunio IHP	3	JVS/AW/SC	27	£2,700.00
15	Adolygiadau Bwrdd Gwaith IHP	3	KD/SC/CJ	4.5	£450.00
16	Adolygiad Dylunio IHP	3	AL/MA/TA	28	£4,050.00
17	Adolygiad Dylunio	4	SS/T	34	£5,100.00
21	Adolygiad Dylunio IHP	2	SR/MGJ	18	£2,025.00
22	Adolygiad Dylunio IHP	3	LS/JL/SS	27	£3,600.00
23	Adolygiad Dylunio IHP	3	CK/RW/AS	27	£3,150.00
<b>Hydref</b>					
15	Gweithdy Felindre	4	EJ/SR/AB/TA	14	£2,100.00
22	Adolygiad Dylunio	3	AL/AW/RW	15	£1,625.00
23	Cyfarfod Parc Llanhilid	1	MT	2	£300.00
<b>Tachwedd</b>					
11	Adolygiad Dylunio	2	JVS/SS/EJ	9.5	£2,175.00
12	Adolygiad Dylunio	4	KD/TA/MGJ/NW	36	£3,825.00
24	Gweithdy Ysbyty Felindre	4	TA/EJ/SR/AB	10	£1,500.00
<b>Rhagfyr</b>					
10	Adolygiad Dylunio	3	JVS/SS/LS	24	£3,600.00
<b>Ionawr</b>					
21	Adolygiad Dylunio	4	EJ/TA/KD/SS	32	£4,400.00
<b>Chwefror</b>					
18	Adolygiad Dylunio	6	SR/EJ/MA/AW/JL/NW	36.5	£4,750.00
<b>Mawrth</b>					
18	Adolygiad Dylunio	4	AL/CJ/JH/KD	22	£3,500.00
Cyfanswm = 22.8% o Drosiant Blynyddol DCFW					£82,325.00

ON - Ffigur a) uchod yn gywir ar adeg ysgrifennu a gall newid oherwydd adolygiadau ychwanegol a drefnwyd cyn 31 Mawrth 2021.





[www.dcfw.org](http://www.dcfw.org)